www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1
RHIF 520
Chwefror 2024



## Gwobr Haeddiannol

Gwirfoddolwyr ydi calon ein clybiau chwaraeon lleol, ac mae hi'n bwysig ein bod ni'n gwerthfawrogi a diolch i'r bobl arbennig yma. Mae Andrew 'Klopp' Williams yn enw a wyneb cyfarwydd i bawb yng Nghlwb Pêl-droed Bethel, ac mae Andrew wedi derbyn gwobr er mwyn cydnabod ei gyfraniad gwerthfawr o bob agwedd o fywyd y clwb. Trowch i **dudalen 18** i ddarllen y stori.



## Gwestai arbennig

Ydi bro'r Eco yn dod yn gyrchfan boblogaidd i gwmniau teledu dudwch? Bu dau o sêr rygbi Cymru yn ymweld â Chaffi'r Bedol yn Bethel er mwyn ffilmio pennod o'r rhaglen Iaith ar Daith. Fe gofiwch dwi'n siŵr bod Iaith ar Daith wedi ffilmio Lisa Palfrey a Jessica Hynes ar ymweliad â changen Merched y Wawr, Llanrug, y llynedd, a bod criw Band Llanrug wedi bod yn destun pennod o Prosiect Pum Mil.

Darllenwch ragor am ymweliad Ken Owens a Josh Navidi yn newyddion Bethel ar **dudalen 7**.

## Yn y rhifyn hwn:


- Twrnament Snwcer Deiniolen - tud 4
- Apêl am wybodaeth am hanes Tŷ Coch, Waunfawr - tud 11
- Atgofion am Y Twnel Hud - tud 14
- Gwobrwyo arwr clwb pêl-droed Bethel - tud 18
- Uchafbwyntiau chwaraeon 2023 a chalendr chwaraeon 2024 - tud 28




4





28

## Elin Enfys

### Chwilio am Elin Enfys

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**



w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k
ECO'r Wyddfa

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
*** Swydd y golygydd yn wag ar hyn o bryd

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys –marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Caryl Rees, Cae Corniog Bach,
Penisarwaun
cajones674@gmail.com
(neu cysylltwch ag Ann Ifans)

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Marged Rhys, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

## Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **COP28.** Datgelwyd fod bron i 2,500 o bobl gyda chysylltiadau â diwydiannau glo, olew a nwy wedi cofrestru â'r gynhadledd; dros 400 yn fwy na'r llynedd. Yn ôl amgylcheddwyr, mae'n dangos unwaith eto beth yw pŵer gwleidyddol rhyngwladol y cwmniau hyn.
- **Gwres.** Y degawd diwethaf oedd y poethaf erioed. Cododd lefel y môr bron i 5mm bob blwyddyn o'i gymharu â llai na 3mm y flwyddyn rhwng 2001 a 2010.
- **Llangollen.** Cyhoeddwyd fod Syr Tom Jones i berfformio yng nghyngerdd agoriadol yr Eisteddfod Ryngwladol fis Gorffennaf nesaf.
- **Arian parod.** Mae'r defnydd o arian parod wedi cynyddu am y tro cyntaf mewn degawd am fod pobl yn credu ei bod yn haws cadw rheolaeth ar eu gwario nag wrth ddefnyddio cardiau credyd.
- **Tarw**. Yn ystod prysurdeb boreol ar linell rheilffordd yn New Jersey, UDA, bu'n rhaid atal sawl trên am fod tarw'n carlamu i fyny ac i lawr y lein. Credir ei fod wedi dianc o ladd-dŷ cyfagos. Fe'i daliwyd, ond ni chafodd ei anfon yn ôl i'r lladd-dŷ, ond i ofal gwarchodfa anifeiliaid.
- **Dwrn**. Mae Faruk Koca wedi ei wahardd am oes gan Gymdeithas Bêl-droed Twrci, a hynny am redeg ar y cae ar ddiwedd gêm a rhoi dyrnod i'r dyfarnwr; dyrnod mor egr fel y bu'n rhaid iddo fynd i'r ysbyty am driniaeth.
- **Enwau.** Yn ôl safle cyfrwng cymdeithasol BabyCentre, y ddau enw mwyaf poblogaidd yn 2023 oedd Muhammad ac Olivia.
- **Priodas.** Ar ddiwedd y llynedd, roedd Vivian a Ruth Poole o Gaerwrangon yn dathlu 75 mlynedd o fywyd priodasol. Fe'u priodwyd ym 1948 pan oedd y ddau yn ugain oed.
- **'M'.** Gwraig yn prynu addurn gwydr mewn siop ail-law am £4, yn darganfod y llythyren 'M' ar ei gwaelod, a chywreinrwydd yn ei harwain i ddarganfod mai gwaith gwydr gan Carlo Scarpa o Ynys Murano ger Fenis oedd ganddi. Fe'i gwerthwyd mewn ocsiwn am bron i £85,000.
- **Panda.** Ble methodd pandas yr Alban, llwyddodd rhai Berlin. Anfonwyd dau banda ifanc a anwyd yn Berlin yn ôl i China ddiwedd fis Rhagfyr. Honnai pennaeth adran iechyd anifeiliaid Sŵ Berlin (gyda thafod yn ei foch) mai eu bwydo â'r bambŵ cywir oedd y gyfrinach.
- **Crocodeilod.** Yn dilyn llifogydd annaturiol yng ngogledd-ddwyrain Queensland, Awstralia, bu'n rhaid rhybuddio'r boblogaeth leol am grocodeilod nad ydynt fel arfer i'w canfod yn yr ardaloedd trefol yno. Yn Ingham, daliwyd un o'r anifeiliaid mewn gorsaf betrol, ac un arall mewn pibell garthffosiaeth.
- **Nadolig**. Wcrain yn dathlu'r Nadolig am y tro cyntaf ar Ragfyr 25ain wedi i'r Eglwys Uniongred yno dorri pob cysylltiad â'i chwaer-eglwys yn Rwsia.
- **Wyau.** Oedd, roedd wyau Pasg ar werth bedwar diwrnod wedi'r Nadolig.
- **Nos Galan**. Arolwg yn dangos fod pobl yn gwario ar gyfartaledd £174 yr un am noson allan i ddathlu dyfodiad y flwyddyn newydd.
- **Pobl.** Roedd 75 miliwn yn fwy o bobl yn y byd erbyn diwedd 2023. Ers dechrau eleni, mae 4 genedigaeth a 2 farwolaeth yn digwydd yn y byd bob eiliad.
- **Gwastraff Wisgi.** Mae gwyddonwyr ym Mhrifysgol Caeredin wedi darganfod dull o ddefnyddio dŵr gwastraff o'r diwydiant wisgi i gynhrchu ynni hydrogen gwyrdd.
- **Biliau.** Mae prisiau trydan a nwy i gynyddu eleni, a gall olygu prisiau drutach o tua £94 y flwyddyn i'n biliau.
- **Drama.** Ymateb y cyhoedd i'r ddrama 'Mr Bates v the Post Office' wedi gorfodi gwleidyddion i ymateb i'r anghyfiawnderau i weithwyr swyddfeydd post dros yr ugain mlynedd diwethaf, a hynny oherwydd i benaethiaid Swyddfa'r Post wrthod derbyn, a hyd yn oed wadu, fod unrhyw nam ar eu system gyfrifiadurol Horizon. Petisiwn wedi ei arwyddo gan dros filiwn o bobl wedi achosi i Brif Weithredwr y Swyddfa'r Post ar y pryd roi ei 'anrhydedd' o dderbyn y CBE yn ôl.

**GWYDDONIAETH AR Y CYFRYNGAU CYMRAEG - YR HER**

**Elin Rhys(Cwmni Telesgop)**

**7.30 Nos Lun Chwefror 12 2024.**

**Ystafell 1.07 Canolfan Bedwyr (Neuadd Dyfrdwy), Ffordd y Coleg, Bangor LL57 2DG ac ar y we.**

**Deri Tomos, Ysgrifennydd.**

## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Mawrth | 9 Chwefror | 23 Chwefror |
| Ebrill | 8 Mawrth | 22 Mawrth |
| Mai | 12 Ebrill | 26 Ebrill |

## CAEATHRO



**Capel**
Ar y 4ydd o Chwefror, bydd gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths am 2.00PM Gweinyddir y Cymun yn ystod yr oedfa hon. Yna, ar y 18fed o Chwefror, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Gwenda Richards, hefyd i gychwyn am 2.00PM

**Clwb Garddio**
*Rhagfyr 2023*
Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, croesawyd wyneb cyfarwydd i'n plith, sef Jill Evans, Blodau Bach, Caeathro. Daeth Jill atom i'n dysgu sut i wneud torch ar gyfer y Nadolig. Dechreuodd wrth roi arddangosiad i ni o'r camau sydd angen eu cymryd. Yna, aethom ati i ddewis ein gwyrddail ac ategolion. Llwyddwyd i greu torchau deniadol gyda'r aelodau'n creu ystod o ddyluniadau creadigol.

Diolchwyd i Jill am ei pharodrwydd i ddod atom i rannu ei sgiliau blodeuwriaeth. Roedd yr aelodau wedi cael cymaint o fwynhad, fel ein bod wedi gwahodd Jill i ddod atom eto yn Rhagfyr 2024. Y dasg nesaf i'w chyflawni fydd creu trefniant blodau i'w osod ar fwrdd.

*Ionawr 2024*
Suzie Craik oedd ein gwraig wâdd yng nghyfarfod mis Ionawr. Mae Suzie yn arddwraig brofiadol sydd yn ddiweddar wedi ymgartrefu yn y Groeslon. Ei thasg oedd cynnal sesiwn cwestiwn ac ateb. Roedd yr aelodau yn cael cyfle i'w holi ynglŷn â materion garddio. Ymhlith y cwestiynau y cafwyd atebion iddynt oedd sut i docio rhosod a choed afalau, trin gwrychoedd a chael gwared â chwlwm y cythraul (bindweed).

**Carolau**
Cafwyd noson braf o ganu Carolau o gwmpas y goeden ar Sgwâr y Pentref cyn y Nadolig. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth. Mae'r arian a gasglwyd wedi ei drosglwyddo i gronfa'r Banc Bwyd yng Nghaernarfon. Diolch hefyd i griw Seindorf Arian Llanrug am y gerddoriaeth a'r arweiniad.

Diolchwyd i Suzie am rannu ei gwybodaeth gyda ni gan ein Llywydd, Rhiannon Owen.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimladau dwysaf at deulu a ffrindiau'r ddiweddar Laura Griffith, 1 Stad Glandŵr, yn dilyn ei marwolaeth yn ddiweddar.




## DINORWIG

**Blwyddyn newydd**
Anodd credu ein bod yn cychwyn ar flwyddyn newydd unwaith eto, a'r Nadolig a Dydd Calan yn edrych ymhell yn ôl. Tybed ydi'r blynyddoedd yn mynd yn gynt? Ynteu henaint sy'n dal i fyny â ni? Mae'n debyg nad anghofiwn y dogn anhygoel o law a gawsom dros y gwyliau, ond gobeithio na fydd gweddill y gaeaf yn rhy oer a gwlyb. Blwyddyn newydd dda i bawb yn yr ardal.

**Gwasanaethau**
Dyma'r gwasanaethau sydd i'w cynnal yn Nhŷ Elidir, Deiniolen dros y mis nesaf:
Ionawr 28: Y Parchg Eric Jones, Bangor am 3.30PM
Chwefror 4: Y Parchg Cledwyn Williams, Bangor am 2.00PM
Chwefror 11: Ms Eleri Jones, Bangor am 3.30PM
Chwefror 18: Y Parchg Olaf Davies, Môn am 3.30PM
Chwefror 25: Mr Arwel Williams, Caernarfon am 3.30PM
Mawrth 3: Y Parchg John Pritchard, Llanberis am 3.30PM
Gwnewch yn siwr o'r amseroedd uchod. Mae posibilrwydd y bydd newidiadau.

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Margaret Williams, (Margaret Craigle gynt), Ffordd Deiniol, Deiniolen a'r teulu yn eu profedigaeth. Bu farw ei mab yng nghyfraith, Ieuan, yn hynod o sydyn ychydig ddyddiau cyn y Nadolig.

Ein cofion hefyd at Bethan a Ffion, 1 Bro Elidir, a'u brawd, Arwel, ar golli eu tad yn ddiweddar.

**Colled arall i'r ardal**
Unwaith eto yn ystod gwyliau'r Nadolig daeth newydd trist i'r ardal, y tro hwn am farwolaeth Gwyneth Hafoty gynt. Wedi ei phriodas â Neville Price, Cringae, symudodd i fyw i Lys y Gwynt, Seion, a ganwyd iddynt bedair o ferched. Yn dilyn colli Nerys, y ferch, yn ifanc, a marwolaeth Neville, symudodd i fyw i Fethel. Yn dilyn salwch, bu'n rhaid i Gwyneth symud i Gartref Seiont Newydd yng Nghaernarfon, ac yno y bu farw yng nghwmni ei theulu. Fe'i claddwyd gyda'i rhieni a'i merch ym mynwent Llandinorwig.

**Cofion**
Ein cofion fel ardal at bawb o'r fro sydd mewn cartrefi henoed, ac eraill sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen am y gwanwyn gyda gobaith.





**Twrnament Snwcer**
Cynhaliwyd twrnament snwcer yn Neiniolen diwedd mis Rhagfyr. Diolch i Gwion a Caio am drefnu ac i bawb ddaeth yno i gystadlu. Llongyfarchiadau i'r enillwyr i gyd.





**Profedigaeth**
Estynnwn bob cydymdeimlad at deulu'r diweddar Ieuan neu Ieu Morris, a fu farw yn sydyn ac annisgwyl yn ei gartref 5 Rhes Cynfi, yn Neiniolen yn 69 mlwydd oed.

Gŵr cariadus a ffrind gorau Nia; tad balch a chefnogol Jeni a Trystan; mab annwyl y diweddar Jennie Blodwen a David John Morris a mab-yng-nghyfraith gofalus Margaret a'r diweddar Ellis Wyn. Brawd ffyddlon Hilda, Dave, Gwyn a'r diweddar Hefin, Gwen, Jane a Rhian. Ewythr, brawd-yng-nghyfraith a chefnder hoffus. Colled enfawr i'w deulu, ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr am ŵr bonheddig a chydwybodol.

Yn sydyn ond yn dawel, wedi gwaeledd hir, bu farw Gwynedd Jones neu Bimbo i bawb oedd yn ei nabod, yn ei gartref 4 Hafod Oleu, Deiniolen, yn 68 mlwydd oed.

Tad a Thaid cariadus a Brawd annwyl. Colled drist i'w deulu a'i ffrindiau oll.

**Rhoddion**
Rhodd £30 gan Mrs Rosina Worth a'r teulu er cof am Martin Worth.

**Neges gan y Cynghorydd Elfed Williams**
Ar y 7fed o Ragfyr, cefais gyfarfod gyda Phrif Weithredwr y Cyngor, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Briffyrdd. Prif bwnc y cyfarfod oedd cyflwr lonydd yn ward Deiniolen.

Gobeithiaf gael mwy o newyddion gan yr adran, o gwmpas y gwanwyn.

# Arolwg Gwylio Adar yr Ardd (RSPB Birdwatch)

Wel mae hi'n amser unwaith eto i fynd ati dros benwythnos 26 - 28 Ionawr, 2024 i gyfri'r adar sy'n dod i ymweld â'ch gardd.

Llynedd cymrodd mwy na 26,000 o natur garwyr Cymru ran yn yr arolwg, gan gofnodi iddynt weld 513, 485 o adar. Nifer trawiadol yn wir.







**Sut mae bod yn rhan o'r arolwg?**
Digon hawdd. Does dim rhaid i chi hyd yn oed fod yn berchennog gardd! Gallwch eistedd ac ymlacio am awr o'ch balconi neu mewn parc lleol, neu wrth gwrs yn eich gardd, yn cyfrif faint o adar allwch chi eu gweld.

**Pam ddyliech chi gymryd rhan?**
Wel, mae adar yn wynebu pob math o sialensiau ar hyn o bryd oherwydd yr argyfwng newid hinsawdd, ffliw adar a newidiadau cyson i'w tirweddau amrywiol.

Mae'r arolwg yn helpu ni a mudiadau fel yr RSPB i ddeall pa adar sy'n llwyddo a pha rai sydd mewn perygl o fynd yn brin neu'n brinnach. Pryd glywsoch chi 'daer gri'r' gylfinir diwethaf ar wlypdiroedd Rhos y Marchlyn neu'r Waun Gynfi? Rydym wedi gweld un, sawl gwaith, wrth gerdded ar y Foryd yng Nghaernarfon ond mi oeddem yn clywed ei chri yn aml yn nes at adref, erstalwm. Mae gwaith cadwraethol yn hanfodol i ddiogelu rhai o'r rhywogaethau mwyaf prin.

Mi ydan ni'n bwydo'r adar yn yr ardd acw ac wedi bod yn lwcus o weld hyd at 7 aderyn du neu'r fwyalchen (gwryw a benyw) yn yr ardd yn ystod y tywydd gaeafol diweddar. Trist nodi bod 50% yn llai ohonynt wedi cael eu cofnodi ers arolwg 1979. Ers 1979 gwelwyd 24% yn llai o robin goch; 69% yn llai o'r ji-binc; 82% yn llai o ddrudwy (er bod digon ohonynt yma); 80% yn llai o'r fronfraith. Ar nodyn mwy positif gwelwyd cynnydd mewn rhai adar, gydag 82% yn fwy o'r dryw bach; 54% yn fwy o'r titw mawr ac 14% yn fwy o'r titw tomos las.

**Sut allwch chi gymryd rhan?**
Cofrestrwch nawr i gymryd rhan ar rspb.org.uk/birdwatch

Gallwch gael siart o'r math o adar fyddwch yn debygol i'w gweld cyn dechrau cyfrif faint yw'r mwyaf o fathau unigol o adar welwch chi ar y pryd (dydy'r rhai sy'n hedfan uwchben eich gardd ddim yn cyfrif). Os welwch chi un ji-binc ddeg o weithiau - un ji-binc fyddech chi'n ei nodi, ond os welwch chi 5 ji-binc ar y lawnt byddech yn nodi i chi weld pump ohonynt! Mae yna fideo ar y linc uchod sy'n esbonio hyn yn glir.

**Sut ydw i'n anfon beth welais at yr RSPB?**
Gallwch eu hanfon ar-lein erbyn 18fed Chwefror neu eu hanfon drwy'r post i: FREEPOST, RSPB BIG GARDEN BIRDWATCH erbyn 13eg Chwefror.

Caiff canlyniadau'r arolwg eu cyhoeddi ar safwe'r RSPB yn ystod mis Ebrill 2024.

# Ysgol Gwaun Gynfi

**Diwrnod Sanau Od**
Daeth y disgyblion a staff yr ysgol i'r ysgol yn gwisgo sanau od er mwyn codi ymwybyddiaeth o gwrth fwlio. Yn ystod y dydd cafwyd gweithgareddau di -ri er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant.



**Diwrnod Plant mewn Angen**
Casglwyd £280 tuag at Blant mewn Angen. Diolch yn fawr iawn i bawb am eich cefnogaeth.




**Cystadleuaeth Athletau Sportshall**
Llongyfarchiadau i griw o ddisgyblion 5 a 6 fu'n cystadlu mewn chwaraeon yn ddiweddar. Da iawn chi!





**Sesiynau pontio**
Blynyddoedd 6 y dalgylch yn mwynhau sesiynau pontio yn Ysgol Brynrefail. Gweithgareddau Iechyd a Lles ar hyd yr wythnos. Pawb wedi mwynhau gweithio'n galed a chyfle i ddod i adnabod ffrindiau newydd.

**Cystadleuaeth Pêl-droed yr Urdd**
Llongyfarchiadau i dim pêl droed yr ysgol . Bron iawn a chyrraedd yr ail rownd. Da iawn chi!




**Operation Christmas Child**
Bu'r plant yn brysur iawn yn casglu adnoddau i roi mewn bocsys Nadolig. Diolch yn fawr iawn i chi gyd am eich cyfrangiad.



**Ffilm Wonka**
Blynyddoedd 2,3 4 5 a 6 yn mwynhau gwylio ffilm Wonka yn y Galeri.



**Cinio Nadolig**
Cafwyd cinio Nadolig bendigedig eto eleni gan Anti Stacey, Diolch yn fawr iawn i holl staff y gegin am eu gwaith caled.



**Sion Corn**
Daeth Sion Corn draw i gwrdd a'r plant a rhoddwydd anrheg i holl blant yr ysgol. Diolch yn fawr iawn Sion Corn.



**Sioe Nadolig**
Cafwyd Sioe Nadolig lwyddiannus iawn eto eleni . Roedd y Neuadd yn llawn yn ystod y prynhawn a'r nos. Da iawn chi blant am eich perfformiad. Talentau di ri!

**Ffair Nadolig**
Cynhaliwyd Ffair Nadolig yn neuadd yr ysgol Rhagfyr y 4ydd. Braf oedd gweld y Neuadd yn llawn unwaith eto.

Diolch i'r staff am drefnu ac i bawb am gefnogi.

# BETHEL A SEION

**Cydymdeimlad**
Fesul tri fyddai'r hen bobol yn ddweud ac felly y bu hi o ran colledion yma ym Methel. Wedi gwaeledd hir a frwydrodd yn ddewr, bu farw Ceris Williams, Stad Tan y Cae. Cydymdeimlwn â'i gŵr Gwyndaf , y plant a'r teulu estynedig.

O gwmpas y flwyddyn newydd fe gollwyd dau arall, a oedd erbyn hyn mewn Cartrefi Preswyl. Yng nghartref Gwynfa, Caernarfon bu farw Wil Humphreys, Llwyn Hudol, Bethel gynt. Dyn yr inc oedd Wil, wedi gweithio i sawl gwasg yn ystod ei fywyd. Cydymdeimlwn a Shân, Gareth ac Owain.

Yng nghartref Bryn Seiont, Caernarfon bu farw Gwyneth Price, Llys Gwynt, Seion a Bro Eglwys gynt. Dynes hael ei chymwynas fu Gwyneth a bu'n swyddog i'n Clwb Bro am sawl tymor. Ein cydymdeimlad â'r merched Carol, Janice ac Enid a'r teulu estynedig.

**Clwb Bro**
Daeth 40 o aelodau a ffrindiau ynghyd i fwynhau'r Cinio Nadolig draw yng Nghlwb Golff Caernarfon. Croesawyd pawb gan ein llywydd, Mary Wyn Jones, a roddodd ddiolch arbennig i Gwen a staff arlwyo'r Clwb am y wledd flasus a'r croeso cynnes arferol. Diolch i bawb a gyfrannodd at y gwobrau raffl. Cyfeiriwyd at farwolaeth un o'n cyn-aelodau, Margaret Williams, Tŷ Capel Cysegr, gynt. Llongyfarchwyd Mary Evans, Bro Eglwys ar ddod yn hen nain i Hari Cernyw, mab Arron ac Erin.

Wythnos yn ddiweddarach cynhaliwyd ein Gwasanaeth Nadolig wedi ei drefnu gan Rita Williams. Diolch hefyd i'r Parch. Nerys Griffith, ein siaradwr gwadd, a aeth a ni ar daith o gwmpas y byd yn cyfeirio at y gwahanol ffyrdd o ddathlu'r Ŵyl. Pwy feddyliai mai uchafbwynt prydau bwyd dydd Nadolig i lawer yn Japan oedd ymweld â KFC! Rhyfedd o fyd.

Bydd ail ran y tymor yn cychwyn ar 6ed Chwefror yn Festri Cysegr am 1.30pm. Y siaradwr gwadd fydd Arwel Jones, Penisarwaun a'i destun fydd 'T. Rowland Hughes'. Estynnir groeso i unrhyw un ymuno â ni am ein orig hwyliog arferol – a phaned! Gadewch wybod os oes rhywun angen *'lifft'* ar gyfer y cyfarfod.

**Oedfaon Chwefror**
**Y Cysegr**: 4/2 Gweinidog, 11/2 Richard Morris Jones, 18/2 Dafydd Iwan, 25/2 Gweinidog**.**
**Bethel**: 4/2 Arwel Roberts, 11/2 Parch. Ioan Gruffydd, 18/2 Arwel Williams, 25/2 R.E.Hughes.

**Llongyfarchiadau**
Haeddiannol yw cyfeirio at gamp Andrew 'Klopp' Williams, Tyddyn Andrew, ar ennill gwobr arbennig ym myd chwaraeon yn ddiweddar. Cewch yr hanes yn llawn yn y Golofn Chwaraeon.

**Merched y Wawr**
*Rhagfyr 2023*
Bu'r gangen yn dathlu'r Nadolig ym mwyty'r Felin, Pontrug eleni. Cafodd pawb eu plesio'n fawr gyda'r lluniaeth arbennig a chafwyd gwasanaeth caboledig gan staff y bwyty.

Cafwyd anerchiad byr gan Jen Roberts ein Llywydd cyn y gwledda, gydag ychydig o newyddion lleol.

Rhoddwyd llongyfarchion i Mary Evans ar ddod yn hen nain unwaith eto. Mae Arron (mab Catrin) ac Erin wedi cael mab bach – Hari Cernyw.

Dymunwyd gwellhad buan i Falmai Owen wedi codwm ac anafu ei braich.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Margaret Williams (Tŷ Capel gynt). Bu'n aelod ffyddlon o'r gangen ac rydym yn cydymdeimlo a'i theulu.

Rhoddwyd llongyfarchion i dîm Bethel 1 yn y Cwis Hwyl. Roedd dros 600 o aelodau ar draws Cymru wedi cymryd rhan yn y cwis a changen Dinbych ddaeth yn gyntaf. Daeth Mair Price, Mair Read a Gwenan Roberts yn gydradd ail gyda changhenau Penrhosgarnedd a Rhiwlas. Bu rhaid ateb cwestiwn datglwm ac yn dilyn hynny gosodwyd Cangen Bethel yn 4ydd trwy Gymru. Rydym yn falch iawn ohonyn nhw.

Llongyfarchiadau i Cécile Roberts ar ei chyfraniad i 'Cracyr Nadolig' Merched y Wawr ar Zoom. Bu Cecile yn sôn am ei magwriaeth yn Bordeaux a sut yr oedden nhw'n dathlu'r Nadolig. Erbyn hyn mae eitem Cécile ar YouTube (rhag ofn i chi ei fethu).

Wedi'r wledd cawsom ein diddannu gan Alis Glyn. Mae Alis yn ferch ifanc dalentog iawn o Gaernarfon. Mae'n ddisgybl chweched dosbarth yn Ysgol Syr Hugh Owen a daeth atom yn syth o gyngerdd Nadolig yr ysgol lle y cymrodd rhan flaenllaw.

Mae Alis yn un o'r pedwar gyrhaeddodd y brig yng nghystadleuaeth Brwydyr y Bandiau BBC Radio Cymru yn ystod mis Awst 2023. Bu hefyd yn rhan o brosiect Merched yn Gwneud Miwsig ac mae i'w chlywed yn rheolaidd ar Radio Cymru. Mae ei cherddoriaeth i'w gael ar Spotify, Apple Music a YouTube. Yn ddiweddar rhyddhaodd ei EP gyntaf, a rhaid dweud fod pawb wedi eu cyfareddu gan ei thalent a'i llais swynol.



# Byd y Gyfraith

Llongyfarchiadau i Millie Williams, 1 Bro Rhos, Bethel ar dderbyn Ysgoloriaeth Goffa Dafydd Tudur am 2023. Cyflwynir yr Ysgoloriaeth gan Gymdeithas Cyfreithwyr Gwynedd. Bwriad yr Ysgoloriaeth yw meithrin a datblygu llwybrau rhai sy'n dilyn cyrsiau ym myd y gyfraith yng ngogledd-Orllewin Cymru. Yn y llun gwelir Millie yn derbyn tystysgrif yn nodi ei llwyddiant gan y Barnwr Rhanbarthol M. Jones- Evans.



**Difrod**
Dau rifyn yn ôl roeddwn yn cyfeirio a diolch ein bod wedi derbyn cysgodfan bws newydd arall yng ngwaelod y pentref. Dyma'r trydydd yr wyf i'n gofio. Ond wele, ni chafwyd unrhyw barch ato fel y rhai blaenorol. Eisoes mae cwarel a hanner wedi diflannu o un ochr y gysgodfan. Oes mae gwyntoedd cryfion wedi bod yn ddiweddar. O holi rhai sy'n defnyddio'r gysgodfan yn rheolaidd roeddent yn cyfeirio at grac dwfn, sylweddol yn y cwarel. Geiriau un oedd bod y crac yn debyg i waith a grewyd gan gyllell neu arf finiog. Os yw hyn yn wir, hawdd gweld sut roedd y gwyntoedd yn cwblhau'r difrod. Fel baw cŵn, anodd credu sut mae ambell i unigolyn mor ddi-deimlad tuag at eu cymunedau. Gofynnaf un cwestiwn i ni fel unigolion. Pe baem ni yn aelod lleol ar y Cyngor Cymuned, beth fuasai ein hymateb? O gofio fod pum pentref arall yn y plwyf – rhai ohonynt hwy allai wneud gyda chysgodfan – a fuasech yn pleidleisio i wario cannoedd o bunnoedd eto ar atgyweirio Cysgodfan Rhif 4 ym Methel? Hawdd cwyno, ond…



**Ysgol Sul Y Cysegr**
Mae'n anodd credu fod blwyddyn bellach wedi hedfan ers sefydlu'r Parch. Nerys Griffith yma yn y Cysegr ac i'r Ofalaeth. Mae hi'n gwerthfawrogi'r cymorth a chefnogaeth mae'n ei dderbyn gan yr aelodau. Yr ydym ninnau fel aelodau yn gwerthfawrogi ei gwasanaeth. Un nodwedd o'i hoedfaon yw ei 'gair gyda'r plant'. Y mae pawb o bob oed yn gwrando. Mae ganddi ddawn o gyd-gyfathrebu â phlant. Ceir sawl gwên yn ystod y munudau gwerthfawr yma. Yn wir, un o'r elfennau sydd wedi codi calon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw'r cynnydd sylweddol yn aelodaeth yr Ysgol Sul. Fel y cyfeirwyd sawl tro, mae'r 'orig werthfawr' yma yn agored i unrhyw blentyn o'r pentref. Yn wir, mae rhai rhieni ble nad oes Ysgol Sul yn eu pentref yn dod a'u plant i'r Cysegr. Mae hefyd yn ganmoliaeth i Anti Myfanwy ac Anti Menna am eu gwaith diflino gyda'r plant. Yn y llun gwelir aelodau'r Ysgol Sul yn derbyn cymeradwyaeth y gynulleidfa ar derfyn eu Gwasanaeth Nadolig. Diolch iddynt am gynnal gwên.

I orffen, dyma ystadegyn rhyfeddol. Fe ddywedodd un o'r aelodau wrthyf yn ddiweddar am arferiad y Goronwy Jones, Glan Gors ifanc, pan oedd yn Arolygwr yr Ysgol Sul i gyhoeddi ar ddiwedd oedfa y nifer yn bresennol yn yr Ysgol Sul y dydd hwnnw. Cofia'r aelod am un Sul pan gyhoeddwyd y rhif oedd yn bresennol – 84! O gofio fod Ysgolion Sul yn yr addoldai eraill hefyd meddyliwch faint o blant oedd yn mynychu Ysgolion Sul y pentref ar gyfnod pan oedd poblogaeth y pentref tipyn yn llai.





*Ionawr 2024*
Croesawyd pawb i'r cyfarfod cyntaf o 2024 ar y 10fed Ionawr, gan ein llywydd Jen Roberts.

Cyfeiriodd at eitem Cécile Roberts ar ddigwyddiad Zoom Merched Y Wawr cyn y Nadolig. Roedd yn sôn am dyfu i fyny yn Bordeaux ac am Nadolig ei phlentyndod. Roedd dros 150 o aelodau wedi ymuno ar y noson ac mae 20,526 wedi edrych ar yr eitemau 'Cracyr Dolig' ar dudalen gweplyfr Merched Y Wawr yn barod! I'r rhai sydd wedi methu ei weld mae'r gangen wedi ei rannu ar ein cyfrif gweplyfr ein hunain.

Derbyniwyd y newyddion am farwolaeth Gwyneth Pierce, Llys y Gwynt gynt, fu'n aelod am nifer o flynyddoedd ac anfonwyd cydymdeimlad i'r teulu.

Mae'r ddau banel a grewyd gan Meira Evans, Mair Read a Rhian Hughes ar y thema Llwybrau, (a gafodd eu harddangos ym mhabell MYW yn yr Eisteddfod Genedlaethol), bellach i'w gweld ar wal y caffi cymunedol, Caffi'r Bedol.

Bydd y gangen yn mynd i Gaffi'r Bedol i ddathlu Gŵyl Dewi eleni a gofynwyd yn garedig i'r aelodau ddod â'r ffurflen yn ôl gydag arian parod i'n cyfarfod ar 14eg Chwefror.

Atgoffwyd yr aelodau am Ginio'r Llywydd Cenedlaethol, Geunor Roberts, fydd yn disgwydd yng Ngwesty Plas Isaf, Corwen ar Ddydd Sadwrn, 27ain Ebrill. Y gôst yw £27 a bydd angen yr enwau erbyn 26ain Ionawr.

Pleser mawr oedd croesawu Rhian Cadwaladr atom - merch sy'n enedigol o Lanberis ac sydd bellach yn byw yn Rhosgadfan. Adnabyddwn hi fel actores ar nifer o eitemau ar y teledu ac ar amryw o lwyfannau. Gwelir hi yn actio mewn cymeriad yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis hefyd.

Mae Rhian erbyn hyn wedi cyhoeddi pedair nofel a mae hi'n enwog bellach am ei llyfrau coginio, ac am y rysetiau sydd wedi bod ar y cyfryngau cymdeithasol, BBC Good Food ac yn y blaen.

Bu'n darllen rhannau allan o rai o'i nofelau ac roedd ei dawn actio yn dod â chymeriadau'r nofel yn fyw i ni gan ymdrin â bywyd bob dydd yn llawn hiwmor. Braf oedd clywed y neuadd yn llawn chwerthin.

Soniodd hefyd am y broses a ddigwyddai wrth iddi fynd ati i baratoi ar gyfer cyhoeddi ei llyfrau coginio – sydd â diwyg arbennig iawn iddynt.

Diolchwyd iddi gan Mair Price a theimlai pawb yn y gynulleidfa eu bod wedi cael gwledd o noson.

**Falch o Baned**
Cafodd y genod yn y Caffi Cymunedol dipyn o sioc dechrau'r flwyddyn pan alwodd dau o selebs y byd rygbi Cymreig i mewn am baned. Y ddau dan sylw oedd Ken Owens (bachwr y Scarlets, Cymru a'r Llewod ers sawl tymor) a Josh Navidi (blaen asgellwr Caerdydd a Chymru). Yn anffodus mae anafiadau wedi cael gryn effaith ar y ddau yn y tymhorau diwethaf. Ken prin wedi chwarae a'i yrfa yn y fantol. Y mae Josh wedi gorfod ymddeol o'r gêm wedi derbyn anaf drwg. Prif bwrpas yr ymweliad â Bethel oedd ffilmio eitem gyda Gari Wyn o Geir Cymru ar gyfer y rhaglen deledu S4C, *Yr Iaith ar Daith*. Y bwriad yw bod dysgwr (Josh yn yr achos yma) yn cael ei fentora gan siaradwr cynhenid. Cafodd y staff a rhai plant oedd yn bresennol bnawn i'w gofio yn holi a chael tynnu eu lluniau. O gofio fod y camerau teledu wedi ymweld â'r caffi wrth ffilmio Priodas Pum Mil hefyd, bu'n gyhoeddusrwydd da i'n menter leol.

**Nadolig 2023, 20.. ,**
Ar Ŵyl, cawn sŵn cweryla, - y llegach
sy'n llwgu yn Gaza.
Daeth â'i wae, mae Herod 'ma
â'i gleddyf, tra'r cry'n gwledda.
RLLJ



# Arddangosfa 10-17 Chwefror: Darlunio'r Dyfodol: Ffotograffau o Gymru, yr Alban a Chatalwnia

Llun o beth fyddech chi'n ei dynnu i gyfleu eich agwedd tuag at annibyniaeth? Nid y dasg hawsaf. Ond dyna gwestiwn ein prosiect yn defnyddio ffotograffiaeth i ddeall sut mae pobl yn meddwl am annibyniaeth yng Nghymru, yr Alban a Chatalwnia.

Rydyn ni'n cynnal arddangosfa o ffotograffau'r prosiect yn Oriel Carn, Canolfan Wybodaeth Ymwelwyr, Pendeitsh Caernarfon, 10-17 Chwefror 2024 (heblaw am 11 Chwefror). Bydd yr arddangosfa ar agor rhwng 10.00-15.00. Bydd gweithgareddau yn gysylltiedig â'r arddangosfa yn enwedig i blant 15,16,17 Chwefror. Croeso i bawb.

Prosiect amhleidiol ydi hwn sy'n wahanol i'r arfer o ddefnyddio arolygon barn yn bennaf i ddeall sut mae nodweddion pobl (fel oedran, rhywedd a dosbarth cymdeithasol) yn effeithio ar eu safbwynt ar annibyniaeth. Drwy ddechrau gyda thynnu lluniau, rydyn ni wedi gofyn i bobl mewn clybiau camera a chyrsiau i fyfyrwyr ffotograffiaeth drafod eu teimladau ynglŷn ag annibyniaeth a sut mae eu profiadau yn dylanwadu ar eu barn ar draws y tri achos. Bydd yr arddangosfa hefyd yn cael ei dangos yn Senedd Cymru ym mis Mai.

Am wybodaeth bellach am yr arddangosfa, ewch i:

https://cwps.aber.ac.uk/cy/gwleidyddiaeth-annibyniaeth/. Mae'r prosiect wedi'i ariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Cymdeithas, yn rhan o Ganolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil yr ESRC/WISERD.

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

## PENISARWAUN

Dymunir Blwyddyn Newydd Dda a Bendithiol i holl drigolion y pentref.

**Penblwyddi Arbennig**
Dathlir penblwyddi arbennig iawn y mis hwn - llongyferchir Phyllis Ellis (Rhosfair), Ann Ifans (Sycharth) ac Edward Aubrey (Ysgubor Cae Corniog), gyda phob dymuniad da i'r ddegawd nesaf.

**Cofion**
Anfonir ein cofion anwylaf at bawb sy'n wael eu hiechyd gan ddymuno adferiad buan.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**
Bu dathliad Nadolig ar y cyd â phlant yr Ysgol yn hynod o lwyddiannus ar Ragfyr 20fed, gyda'r neuadd yn llawn o rieni, neiniau a theidiau a ffrindiau cefnogol. Diolchir i'r Pennaeth a'r staff am eitemau clodwiw'r plant, i Phyllis am olrhain cefndir nifer o draddodiadau'r Nadolig ac i Ann am adrodd hanes cefndir hyfryd y garol fyd-enwog 'Dawel Nos'.

Apelir am aelodau i'r Clwb Cant sy'n rhedeg o Fedi i Fedi. Gellir ymaelodi am £6 o rŵan i fis Medi. Mae'r Clwb Cant o fudd mawr tuag at y gost o redeg y Neuadd.
Enillwyr Clwb Cant Ionawr yw:
1af - Iago Hughes, Winllan
2il - Myfanwy Parry, Tawelfa

Cynhelir Pwyllgor ar nos Lun, 5ed Chwefror am 7yh yn yr Ystafell Gymuned i drefnu 'Dathlu Gŵyl Dewi' ar y cyd â phlant yr ysgol.

**Eglwys Santes Helen**
Yn arwain at Ŵyl y Nadolig bu cyfnod yr Adfent yn un prysur fel arfer i holl aelodau yr Eglwys a'r Gwasanaethau dan ofal y Canon Brian Castle a'r Warden John O. Jones.

Yn y Boreol Weddi ar 3ydd Rhagfyr goleuwyd cannwyll gyntaf yr Adfent a'r canhwyllau eraill yn dilyn ymhob gwasanaeth gydol y mis.

Ar y trydydd Sul ac ar Sul olaf y flwyddyn arweiniwyd yn yr Offeren gan yr Archddiacon David Parry.

Ymunodd nifer o'r aelodau yng nghinio Nadolig Bro Eryri yn Bron Menai, Caernarfon ar 6ed Rhagfyr.

Mae presenoldeb y Goeden Nadolig tu allan i'r Eglwys wedi ei goleuo yn nodwedd arbennig yn flynyddol. Roedd yn achlysur arbennig ei gosod i fyny eleni eto ynghyd â'r Goeden tu fewn i'r Eglwys, Golygfa'r Preseb a'r holl addurniadau. Dyma'r diwrnod hefyd y cynhaliodd yr Ysgol Gymuned eu Cyngerdd Nadolig yn yr Eglwys oedd yn llwyddiant mawr.

Trefnwyd gweithgaredd Nadoligaidd ar 12fed Rhagfyr gan Rhiannon Jones yn Neuadd yr Eglwys pryd y cafwyd cyfle i gymryd rhan mewn dosbarth meistr i greu torch Nadolig dan arweiniad Gillian Evans. Cafwyd noson lwyddiannus a chymdeithasu dros luniaeth Nadoligaidd ar y terfyn.

Ddydd Mercher 20fed Rhagfyr cafwyd Eglwys Agored rhwng 2.00 a 7.00PM – egwyl o fyfyrdod i olau cannwyll er cof am anwyliaid gyda cherddoriaeth yn y cefndir.

Cynhaliwyd Offeren y Nadolig fore Sul y 24ain am 11.00AM dan arweiniad y Canon Brian Castle a'r organydd oedd Dr William Munro.

Noswyl Nadolig am 9.00PM cafwyd dathliad arbennig ar drothwy Dydd Nadolig o Naw Llith a Charolau wedi ei drefnu gan y Canon Brian Castle a'r Warden John O. Jones.

Roedd naws arbennig i'r Gwasanaeth hwn yng ngolau canhwyllau. Darllenwyd y llithoedd gan Joyce Williams, Jane a Malcolm Jones, John Jones, Louise Ingham, Elizabeth Plemming, Katie Lewis, Ceridwen Williams a Pauline Castle a'r organydd oedd Lowri Prys Roberts.

**Gwasanaethau Chwefror**
Bydd Gwasanaethau Boreol Weddi /Offeren ar 4ydd Chwefror, 11 18 AM a 25ain Chwefror am 11.00 AM gyda lluniaeth a chymdeithasu yn dilyn.

Boreau Llun, 5, 12, 19, 26 Chwefror, rhwng 10.00 AM a 12.00 PM - Te a Thost yn Neuadd yr Eglwys.


FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com



BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS

# LLANBERIS

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun neu erthygl i'r *Eco*, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn, ebost neu alwad personol, gan ddefnyddio'r cyfeiriadau sydd dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr *Eco*.
Diolch yn fawr.

Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddol yn y pentref. Yn eu mysg mae'r canlynol:
**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis**
Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00 tan 7.30 o'r gloch. Cost: £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnio:** Cyfarfod yn y Ganolfan ar brynhawn Iau, o 2.00 hyd 4.00 o'r gloch. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!



**Grŵp Pentref Taclus Llanberis**
Mae'r Grŵp yn casglu sbwriel bob bore Sul trwy'r haf, hyd at ddiwedd Hydref, ac wedyn yn fisol trwy'r Gaeaf. Bydd y Grŵp yn cychwyn am 10.00AM o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12.00PM. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni; ac mae pob offer ar gael i gasglu'r sbwriel! Gweler y trefniadau bob dydd Sadwrn ar dudalen y Grŵp ar *Facebook*.

**Capel Coch**
**Hen Stampiau**
Diolch i bawb sy'n casglu hen stampiau i ni. Maent yn cael eu hanfon i gefnogi Gwaith Cymdeithas Y Deillion. Gellir gadael y stampiau yn y bocs yng nghyntedd y Capel, neu eu rhoi i un o'r Swyddogion.

**Bocs Bwyd**
Diolch i bawb sy'n cyfrannu nwyddau i'r Bocs Bwyd. Gellir rhoi'r nwyddau yn y Bocs Bwyd yng nghyntedd y Capel unrhyw Sul.

**Oedfa Nadolig**
Cynhaliwyd Oedfa Nadolig y Plant yn y Capel fore Sul, Rhagfyr 17. Diolch i athrawon yr Ysgol Sul am drefnu'r oedfa a pharatoi'r plant ar ei chyfer. Braf oedd dathlu'r Nadolig yn eu cwmni. Wedi'r oedfa, cynhaliwyd Parti Nadolig yr Ysgol Sul yn Piggery Pottery, Cwm-y-glo, a diolch i bawb am y trefniadau ar ei gyfer.

**Oedfaon Ionawr, Chwefror a Mawrth**
Ionawr 28: 10.00AM - Y Parchg Dafydd Coetmor Williams
Chwefror 4: 10.00AM - Dr Huw Tegid Roberts
Chwefror 11: 10.00AM - Y Parchg Glenys Jones
Chwefror 18: 4.00PM - Y Parchg Bryn Williams
Chwefror 25: 10.00AM - Mrs Megan Lloyd Williams
Mawrth 3: 2.00PM - Y Parchg Nerys Griffiths
Mawrth 10: 2.00PM - Y Parchg John Pritchard
Mawrth 17: 10.00AM - Y Parchg Gwenda Richards
Mawrth 24: 2.00PM - Y Parchg Trefor Lewis
Mawrth 31: 10.00AM - Y Parchg Gerallt Lloyd Evans

**Eglwys Sant Padarn**
*Arddangosfa*
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w gweld yn yr Eglwys rhwng 10.30AM - 2.00PM o ddydd Llun i ddydd Gwener.

*Gwasanaethau mis Chwefror*
Ionawr 28: 8.00AM - Cymun Bendigaid, 11.00AM - Gwasanaeth Teulu
Chwefror 4: 11.00AM - Cymun Bendigaid
Chwefror 11: 11.00AM - Boreol Weddi
Chwefror 18: 11.00AM- Cymun Bendigaid
Chwefror 25: 8.00AM - Cymun Bendigaid, 11.00AM Gwasanaeth Teulu
Cynhelir Bore Coffi a Chrempog yn yr Eglwys ddydd Sadwrn, 10fed Chwefror rhwng 10.30AM a 2.00PM Croeso cynnes i bawb.

*Enillwyr Clwb 100*
Tachwedd: 1. Olwen Parry; 2. Freda Jones;
3. Bethan Owen
Rhagfyr: 1. Valerie Griffith; 2. Sharon Griffith;
3. John Gareth Jones

**Eglwys Sant Peris**
*Gwasanaethau mis Chwefror*
Ionawr 28: 9.30AM - Cymun Bendigaid
Chwefror 4: 9:30AM - Boreol Weddi
Chwefror 11: 9:30AM - Cymun Bendigaid;
4.00PM - Gwasanaeth Teulu
Chwefror 14 (Dydd Mercher Lludw): 7.00PM - Gwasanaeth Unedig Bro Eryri
Chwefror 18: 9:30AM - Boreol Weddi
Chwefror 25: 9:30AM - Cymun Bendigaid

Hefyd, bob dydd Mawrth am 11.00AM cynhelir un ai Boreol Weddi neu'r Cymun Bendigaid.













# Dyddiadur y gath ddŵad/ Bobliadur - Rhan 22

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dair mlynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

*Mae cathod yn anifeiliaid hynod o lân. Maent yn gallu glanhau eu hunain yn hynod effeithiol drwy lyfu. Mae eu tafodau garw'n gweithio fel brwsh gan gael gwared â baw a blew blêr neu rydd oddi ar eu cotiau ffwr. Ar yr un pryd maent yn taenu sebum, sef olew a gynhyrchir o'r sebaceous gland. A deud y gwir mae cath yn treulio tua thraean o'r amser maent yn effro'n 'grooming'. Un broblem efo nhw'n llyfu a llyncu eu blew eu hunain yw eu bod weithiau'n tagu'r blew hwnnw i fyny ar ffurf pelen o flew (hairball). Un ffordd i wneud yn siŵr nad yw hun yn digwydd yw eu brwsio eu blew bob dydd. Cofiwch haws dweud na gwneud gydag ambell i gath.*

*Un peth yn sicr mae blew Bob yn drwchus a meddal, fel melfed ac ar adegau, yn enwedig yn y gwanwyn, mae ei flew i'w weld hyd y tŷ i gyd ac yn y gwanwyn yn crogi ar ddaliwr o frigyn coeden, fel deunydd nythu i'r pethau bach pluog!*

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori …

"Mew mae hi wedi bod yn oer…. Mi fyddai'n hoffi cael dro bach o gwmpas yr ardd y peth cynta'n y bora, ar ôl brecwast wrth gwrs. Mae'n gyfle i mi gael rhoi fy nheyrnas fach i yn ei lle. Tsiecio sut mae'r pethau bach blewog yn y borderi a'r pethau bach pluog, sydd yn rhy bell i mi gael gafael arnyn nhw, gwaetha'r modd. Dro bach, ond wyddoch chi beth, a dwn i ddim sut i roi hyn yn ddigon delicet i chi ddeu-droediaid yr Eco, mae'r ddaear wedi bod yn rhy galed i mi ei balu! Felly dwi'n gorfod dibynnu ar y bocsys yn y tŷ i wneud beth mae'n rhaid i gath ei wneud. Chwarae teg mae'r ddeu-droed leiaf yn eu cadw nhw'n hynod o lan i mi, ond dio'm cweit yr un peth a chael gwneud beth sydd raid yn yr awyr agored… Er dwi'n gorfod bod reit sydyn a slei, neu mae hi'n rhedeg ar fy ôl yn gweiddi, 'Na Bob! Na!" Wedyn mae hi'n rhedeg ar fy ôl fel deu-droed gwyllt o'r coed. Mae'n anodd deall y deu-droediaid yma ar adegau.

Felly, er bod gen i got ffwr trwchus, mi ydw i wedi bod yn treulio dipyn mwy o amser yn y tŷ, efo nhw, neu fo neu hi neu pwy bynnag arall sy'n landio yn nhŷ'r deu-droediad. Mae hi'n braf cael ymestyn o flaen y bocs tân du a theimlo'r gwres yn treiddio drwy fy mlew melfedaidd i'r croen. Am ryw reswm maen nhw yn cwyno mod i, fi y llew frenin! O dan draed! Wir yr, dydw i ddim yn cymryd llawer o le, mond mater o sbïo lle maen nhw'n mynd ydy hi. Os ydyn nhw'n ddigon gwirion i sefyll arna'i wel nhw fydd yn dioddef….

A deud y gwir mi ydw i'n bachu ar bob cyfle i gael rhyw gyntun cath o flaen y tan, rhwng pycsiau o gadw fy mlew yn daclus a glân. Rhyfedd fel mae eich meddwl chi'n crwydro. Yn aml iawn dwi'n mynd yn ôl at yr ychydig atgofion sydd gen i o fod efo mam. Mae gen i gof ei bod hi'n adrodd pennill i ni (mae'n debyg yn trio'n cael ni i gyd i gysgu) rywbeth tebyg i hyn:

'Pwsi meri mew
Ble gôllaist di dy flew
Wrth gario glo tân
i dŷ Modryb Siân
Drwy'r eira mawr a'r rhew.'

Mae hi'n rhewi yma'n ddiweddar yn y boreau ond does dim llawer o eira wedi disgyn eto, diolch byth. Er mi gawson ni ambell gawod ond dwi ddigon call i aros i mewn a'i wylio heb wlychu nac oeri!

Dydw i ddim yn hoff ohono, mae'n rhy oer ac yn sticio i fy mlew. Debyg bod y pennill hwn wedi dod i fy nghof oherwydd y deu-droediaid yn mwydro y dyliwn i eu helpu nhw i gario coed a rhyw lympiau duon (y glo sy'n y bennill dwi'n meddwl) i'r tŷ efo nhw. Chlywais i erioed ffasiwn lôl. Sut ar wyneb y cathod allwn i helpu efo pedair pawen? A pheth arall dydw i ddim am faeddu fy nghot euraidd (ocê coch) melfedaidd, yn gwneud ffasiwn beth. Yn sicr dydy o ddim yn waith addas i Lew Frenin fel fi. Eu gwaith nhw ydy o a wna i'r gwaith pwysig o addurno'r mat o flaen y tan.

Dwi'n falch iawn o fy nghot felfedaidd, ond mi glywais i hi'n cwyno bod fy ffwr ym mhobman hyd y ty! Wn i ddim sut chwaith. Mae hi'n fy nghribo fi ambell i fore tra dwi'n bwyta fy mrecwast. Dwi'n caniatáu iddi wneud tra dwi'n mwynhau'r danteithion blasus o'r tun crwn. Fasa hi byth yn meiddio gwneud fel arall. A dwi'n gwybod bod talpiau o fy nghot fendigedig yn landio yn y 'bin' wedyn.

Dwi angen fy nghot i gadw'n gynnes ac mi ydw i'n treulio oriau'n ei gadw'n lân ac yn dwt, felly mae'n anodd gen i gredu bod fawr ddim yn mynd i nunlle ond arna i…

Dwi yma bellach ers tair blynedd, yn ôl dull cyfri'r deu-droediaid ac yn ôl pob sôn mi ydw i bellach yn unarddeg oed! Dwi'n dal i deimlo fel cath fach, yn enwedig pan fyddai'n rhedeg ar ôl cysgodion a rhedeg o gwmpas yn yr ardd, pan nad oes stwff gwyn ac oer hyd y gwair. Ar y cyfan fedrai feddwl am lot o lefydd lawer gwaeth i fod yn byw ynddynt, na fan hyn er gwaetha'r stwff oer a gwyn sy'n disgyn o'r awyr yma weithiau. Nos da."







# WAUNFAWR

**Blwyddyn Newydd Dda**!
Cyrrhaeddodd 4 o fabis bach i Waunfawr ers y rhifyn diwethaf o'r Eco, a braf iawn yw gallu croesawu pob un ohonynt.

Ganwyd Lyra Eevee cyn y Nadolig – plentyn bach i Lauren a Leyton, Afallon, chwaer fach i Theo, ac wyres i Lyndsey a Martin.

Yna ar gychwyn y flwyddyn, cyrhaeddodd Macsen Dafydd, mab bach i Cain Thomas (Treforfan gynt) a'i bartner Llio, ac ŵyr i Wendy Thomas, Tan y Foel.

Hogyn bach hefyd gyrhaeddodd Bryn Gwenallt, sef Elis Dafydd, mab cyntaf i Dafydd Greasley a'i bartner Ceira, a brawd bach i Llion; ŵyr i Janet a Pete Greasley, a gor-ŵyr i Grace Dawson a Gwladys Greasley.

Yn olaf am y tro, ganwyd Jackson i Steve a'i bartner sy'n byw yn Arosfa.

Pob hwyl i bawb ar y magu!





**Panad a Sgwrs**
Cafodd criw Panad a Sgwrs eu cinio Nadolig yng Nghaernarfon eleni, ac yn ôl y lluniau, mi roedd pawb wedi cael coblyn o hwyl. Yna, cyn diwedd y mis, daeth rhai o blant yr Ysgol i gadw cyngerdd gwerth chweil. Braf hefyd, ar sgwrs 'whatsapp' y grwp, yw clywed sut mae Glori a John, Tŷ Hen wedi bod yn dathlu'r Nadolig ym Mhatagonia gyda'r teulu.

**Penblwydd arbennig**
Mae Grace Dawson, Tref Eilian, yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn yn ystod mis Ionawr, sef 90 oed. Gydag 17 o or-wyrion, fydd yna ddim prinder teulu i'ch helpu chi i ddathlu, Grace, a gobeithio byddwch yn mwynhau nodi'r garreg filltir hynod hon. Mae Grace yn un arbennig o dda am adrodd stori, ac mi fydd edrych ymlaen yn Paned a Sgwrs i glywed hanesion y pen-blwydd.

**Coeden Nadolig Waunfawr**
Cafwyd coeden Nadolig wahanol i'r arfer yn Waunfawr eleni. Yn hytrach nag un 'go iawn' cafwyd goleuadau wedi eu gosod ar ffurf coeden y tu allan i'r Ganolfan. Braf gweld ein Cyngor Cymuned yn bod yn wyrdd a dyfeisgar wrth ailgylchu hen ffrâm trampolîn fel sylfaen i'r goeden. Fel sy'n arferol, cafwyd noson hwyliog iawn yn y Ganolfan wrth oleuo'r goeden, a chodwyd swm o arian i'r Cylch Meithrin yr un pryd.

**Cydymdeimlad**
Trist iawn oedd clywed y newyddion am farwolaeth Aimee Addison, Lloches gynt, yn ddim ond 39 mlwydd oed. Roedd Aimee yn ferch hynod o annwyl ac addfwyn, ac yn gweithio fel rheolwraig meithrinfa plant ym Mhorthmadog, lle roedd yn byw. Rydym yn cydymdeimlo ac yn anfon ein cofion cynhesaf at ei theulu: Dylan ei chymar, y genod bach Cadi a Lea, ei rhieni Anne ag Allan Addison a'i hefaill Alistair a'i deulu.

Hefyd, rydym yn cydymdeimlo â Rose Owen, Bryn Môr yn ei phrofedigaeth o golli brawd, a hynny ddim ond rhai misoedd wedi colli chwaer. Rydym yn cofio'n cynnes atoch Rose.

**Dei Tomos ar ymweliad â Sain Ffagan**
Un o raglenni difyrraf Radio Cymru, heb os, yw rhaglen Dei Tomos ar bnawn Sul, sy'n llawn sgyrsiau am Gymru, ei phobl a'i diwylliant. Tra ar ymweliad â Sain Ffagan yn ddiweddar i nodi penblwydd yr Amgueddfa honno yn 75 oed, daeth staff yr Amgueddfa o hyd i recordiad o sgwrs gyda rhai o bobl Waunfawr o'r 1950au. Diolch i Dei Tomos am gofnodi'r hanes.

**Tŷ Coch, Waunfawr – cais am wybodaeth**
Dyna apêl gan yr awdur Manon Steffan Ross ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar. Y rheswm am yr holi oedd bod Manon wedi bod yn darllen llyfr 'Alone' gan Kenneth Milligan oedd yn disgrifio byw yn Tŷ Coch yn y 1950au. Roedd Manon yn disgrifio'r llyfr fel un hyfryd, ac eisiau gwybod os oedd y tŷ dal yno. Mae Tŷ Coch arall yn yr ardal wrth gwrs (yn Betws Garmon) ond Tŷ Coch Waunfawr ydi hwn. Tydi ddim yn bosibl gweld Tŷ Coch o'r ffordd erbyn hyn gan fod coed wedi tyfu o'i amgylch, ond diolch i Robert Williams am adael i Manon wybod lle mae'r tŷ.

Tybed oes gan unrhyw un o ddarllenwyr yr *Eco* atgofion am Kenneth Milligan yn byw yn Waunfawr yn y 50'au neu unrhyw wybodaeth arall a fyddai o wybodaeth i Manon ?

# NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
*Gwasanaethau mis Chwefror:*
Ionawr 28 - 9:30AM - Cymun Bendigaid
Chwefror 4 - 9:30AM - Boreol Weddi
Chwefror 11 - 9:30AM - Cymun Bendigaid, 4yp - Gwasanaeth Teulu
Chwefror 14 - Dydd Mercher Lludw am 7PM - gwasanaeth unedig Bro Eryri
Chwefror 18 - 9:30AM - Boreol Weddi
Chwefror 25 - 9:30AM - Cymun Bendigaid
Hefyd, bob dydd Mawrth am 11AM, cynhelir un ai Boreol Weddi neu'r Cymun Bendigaid.





ESTD 1973
WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr ŵyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

# Un funud fach ...

## GELYN NEWYDD

Druan ohoni. Dathlwyd yn llawen ei geni. Daeth gobaith newydd gyda'i dyfodiad. Ond â'r flwyddyn newydd dal yn ei chlytiau, pylu a wnaeth unrhyw obaith am ddiwedd buan i'r lladdfa yn Gaza. Ac fel pe na fu digon o ladd yn y Dwyrain Canol dros dri mis olaf yr hen flwyddyn, barnodd llywodraetha'r Unol Daleithiau a Gwledydd Prydain bod rheidrwydd arnyn nhw i ymuno yn yr ymladd trwy fomio Yemen.

Wrth gwrs, roedd y ddwy lywodraeth yn pwysleisio nad oedden nhw'n gwneud dim ond eu hamddiffyn eu hunain a'u buddiannau wedi i fudiad yr Houthi, a gyfrifir yn derfysgwyr gan Sawdi Arabia a llywodraeth Yemen, ymosod ar longau masnach yn y Môr Coch. Roedd y ddwy lywodraeth yn mynnu hefyd nad ymosod ar Yemen a'i phobl yr oedden nhw ond ar dargedau milwrol sydd dan reolaeth yr Houthi. 'Hunan amddiffyn' a 'thargedau milwrol': mor ddigalon o debyg i'r hyn a glywyd gan Benjamin Netanyahu a Llywodraeth Israel fel cyfiawnhad dros yr holl ladd a fu yn Gaza ers dechrau Hydref. Dal i syrthio ar glustiau byddar y mae pob cri ar y Llywodraeth honno i roi heibio'r lladd. Erbyn hyn, bu farw dros 24,000 yn Gaza, yn cynnwys oddeutu 16,000 o wragedd a phlant. Ond mae Netanyahu'n dal i fynnu "na chaiff neb ein rhwystro – nid [Llys Cyfiawnder Rhyngwladol] Den Haag, nid yr echel ddrygioni [yn arbennig Iran] na neb arall". Tebyg bod y "neb arall" yn cynnwys yr Houthi a'u hymdrech i ddial ar lywodraeth Israel a'i chefnogwyr am yr holl ladd yn Gaza trwy ymosod ar y llongau.

Yn wyneb dioddefaint pobl Gaza, mor wir ac ingol y geiriau: "Mae gan bob unigolyn yn y byd hwn ddau ddewis – un ai sefyll gyda dioddefwyr hil-laddiad neu sefyll gyda'r rhai sy'n gyfrifol amdano". Geiriau pwy? Un o arweinyddion gwledydd y Gorllewin? Arweinydd crefyddol o bwys? Newyddiadurwr neu sylwebydd doeth? Na. Geiriau Mohammed al-Bukhaiti, arweinydd mudiad yr Houthi, wrth iddo ymateb i'r ymosodiadau o du America a Phrydain. Hawdd deall cydymdeimlad al-Bukhaiti â Phalestiniaid Gaza o gofio bod deng mlynedd o ryfela yn Yemen wedi lladd bron i 400,000 erbyn hyn, gydag oddeutu 280,000 ohonynt yn blant dan 5 mlwydd oed. Hawdd deall hefyd ei feirniadaeth ar America a Phrydain o gofio'u cefnogaeth i Sawdi Arabia, sydd wedi ymladd gyda llywodraeth Yemen yn y rhyfel cartref yn erbyn yr Houthi a'i gwrthwynebwyr eraill.

Mwyaf sydyn, gwnaeth llywodraethau'r America a Phrydain elyn o'r Houthi, a does ryfedd y clywyd al-Bukhaiti'n bygwth y bydd y naill a'r llall yn difaru "mynd i ryfel yn erbyn Yemen". Yn ein hofn ar ddechrau blwyddyn gythryblus arall, gweddïwn o'r newydd y daw rywsut heddwch i'r Dwyrain Canol, ac y caiff pobl Gaza ac Yemen fel ei gilydd ddiogelwch a rhyddid. A gweddïwn y caiff ein gwleidyddion yng ngwledydd Prydain ac America eu cywilyddio gan eiriau heriol eu gelyn diweddaraf. Ond nid y gwleidyddion yn unig chwaith, gan fod geiriau al-Bukhaiti'n herio pawb ohonom - yn benodol o ran yr hil laddiad yn Gaza, ond hefyd mewn pob math o sefyllfaoedd eraill - i sefyll o blaid y dioddefus a'r gorthrymedig. A gwneud hynny, nid trwy rym bwled a bom ond trwy bob dull a modd heddychol posibl.

**JOHN PRITCHARD**

## BRYNREFAIL

**Cydymdeimlad**
Daeth profedigaeth i ran teulu Y Swyddfa Bost yn ddiweddar yn ymadawiad Dorothy Wager a fu yn gofalu am wasanaeth y Post ac unig siop nwyddau y pentref ynghyd â dosbarthu newyddiaduron dros yr ardal gyda'i phriod am flynyddoedd maith.

Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â Colin Wager ei phriod, y plant a'u teuluoedd yn eu profediagaeth.

**Sefydliad y Merched**
Croesawyd pawb i gyfarfod mis Tachwedd gan y llywydd Pat Jones.


Roedd Noson Bingo Nadolig hwyliog wedi ei threfnu gyda Nicola yn gofalu am y gweithgareddau. Diolch i bawb am yr anrhegion lu ar gyfer y gwobrau. Gwnaed raffl ar y terfyn gyda gweddill y rhoddion a neb yn mynd adref yn waglaw!

Mwynhawyd y Cinio Nadolig eleni yng Ngwesty Gwynedd yn Llanberis. Mae ein diolch i Vera a Carol am drefnu y noson arbennig hon.


HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
hywel.williams.mp@parliament.uk
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus



Tafarn Y Glyntwrog Llanrug
Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma bob amser

671191




Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl
LLYSIAU LLEOL FFRES
Ymunwch â'n cynllun llysiau!
Dewch i'n siop!
- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**




Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●
Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

# Ysgol Brynrefail

**Disgyblion yn ymweld â'r Nyth**

Dyma luniau o'r saith fu ar ymweliad â'r Nyth ym Mangor ar ddechrau Rhagfyr. Roedd pawb wedi cael llawer o hwyl yn ôl y disgyblion!

Trefnwyd y gweithgareddau ar y cyd â GISDA a'r bwriad oedd codi ymwybyddiaeth am weithgareddau creadigol a'r effaith gadarnhaol gallant gael ar bobl ifanc. Roedd hefyd yn gyfle i ddangos beth sydd ar gael i'r disgyblion yn lleol yn NYTH yn ogystal a dod ag ysgolion ac ardaloedd gwahanol at ei gilydd i greu cysylltiad drwy waith creadigol a therapiwtig. O'r adborth rydan ni wedi cael gan y disgyblion ac aelodau o'r tim creadigol roedd y cyfan yn llwyddiannus iawn!





**Banc Bwyd Arfon**

Unwaith eto eleni fe wnaeth yr ysgol wneud casgliad ar gyfer Banc Bwyd Arfon er mwyn helpu teuluoedd lleol dros gyfnod y Nadolig.

Diolch i Annie Chester a Sophie Davey o flwyddyn 12 am helpu trefnu'r casgliad banc bwyd eleni. Diolch yn fawr iawn hefyd i rieni, disgyblion a staff am yr holl roddion.

**Parti Pendalar**

Ers dros 30 o flynyddoedd mae disgyblion Ysgol Pendalar yng Nghaernarfon wedi mwynhau mynychu partion Nadolig yma yn Ysgol Brynrefail.

A doedd eleni ddim gwahanol, wrth i rai o'r disgyblion sydd ag anghenion arbennig o'r ysgol deithio i Ysgol Brynrefail yn Llanrug i gael gwledd, i ddawnsio, canu a chyfarfod Siôn Corn.

Disgyblion y chweched sydd yn gyfrifol am gasglu arian i drefnu a chynnal y parti drwy roddion gan gwmnïau a phobl leol.

Dywedodd Gruff o'r Chweched Dosbarth: "'Da ni wedi bod yn paratoi ers wythnosau wan ella misoedd, jyst yn hel arian, trio g'neud achlysuron sydd yn hel pres i roi'r profiad gorau i'r disgyblion."

Ychwanegodd Gwern: "Da ni rili isio rhoi parti da iddyn nhw. Da ni'n cynnal gweithgareddau rhoi tamaid i fwyta ac maen nhw'n cael cyfarfod Siôn Corn."

Yn ail yn unig i Siôn Corn ar y rhestr gwesteion oedd Elidyr Glyn o fand Bwncath a wnaeth ganu i'r disgyblion.

"Mae o yn braf iawn cael gwahoddiad i gymryd rhan yn y parti," meddai.

"Mae o yn syniad da, ac yn rhywbeth sy'n hyfryd i weld, cael pobl ifanc yn dod at ei gilydd i drefnu rwbath sydd yn wasanaeth mor bwysig i blant eraill.



"Mae o yn ddigwyddiad arbennig iawn.

"Dwi'n edrych ymlaen at weld Siôn Corn a dwi'n gobeithio y neith o ymuno efo'r canu hefyd, bysa hunan ffantastig."

Mae'r parti blynyddol yn rhywbeth mae'r ysgol a disgyblion Ysgol Brynrefail yn ymfalchïo ynddo, meddai Elfyn Roberts pennaeth chweched yr ysgol.

"Mae'r parti wedi bod yn digwydd ers dros 30 o flynyddoedd a 'da ni'n dal i barhau efo'r traddodiad yna.," meddai.

"Dwi'n meddwl bod o yn hynod o bwysig bod y chweched dosbarth yn cael cyfle i neud gwaith gwirfoddol fel hyn at achos mor dda. Mae'r codi arian cyn y parti yn rhan fawr a'r diwrnod ei hun wrth gwrs a gweld pawb yn cymysgu a chael hwyl- dyna ydi'r uchafbwynt mewn ffordd wedyn.

"Mae o yn gwneud yr holl waith caled o flaen llawn werth o. Dwi'n gwerthfawrogi gwaith caled y chweched ac mae'r parti yn llwyddiant."










# LLANRUG

**Profedigaeth**
Cofiwn yn annwyl am Alfred Thomas John Chappell o Dai Hermon a fu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd ar y 9fed o Ragfyr 2023. Cafodd ei ddymuniad i gyrraedd ei benblwydd yn gant oed fis Ebrill y llynedd, ac i fyw ei fywyd hyd y diwedd yn ei fwthyn yma yn Llanrug. Symudodd Alfred i'r ardal hon o Lundain nôl yn y 50au, i fod yn rheolwr ar Ffatri Caprice Compacts yng Nghaernarfon. Rydym yn meddwl am ei gyfeillion a chyn-gydweithwyr.

Ar yr 21ain o Ragfyr 2023 ac yn sydyn ond yn dawel yn ei gartref, Cefn Rhythallt yn 76 mlwydd oed, bu farw Goronwy Price Morris. Gŵr cariadus Glenda; tad amhrisiadwy Maldwyn a Gethin; tad-yng-nghyfraith croesawus Siân; taid hwyliog Elliw, Iolo ag Ifan; brawd-yng-nghyfraith, cefnder, ewythr a ffrind hoffus. Colled drist i'w deulu a'i ffrindiau oll. Danfonwn gydymdeimlad llwyraf i'r teulu a'i gyfeillion yn y cyfnod anodd yma.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Hywel Williams a'r teulu o Cilan, Pen Cae ar golli ei frawd, Ieuan Williams o Ddolwyddelan dros gyfnod y Nadolig. Rydym yn meddwl amdanoch yn eich colled ac yn anfon ein cofion atoch chi.

Rydym yn estyn cydymdeimlad llwyraf â Meinir o Fryn Moelyn ac Eirian a Chris o Ffordd yr Orsaf a'u teuluoedd, yn eu profedigaeth drist o golli dau gefnder dros gyfnod y Nadolig sef Ieuan Morris (Ieu) o Ddeiniolen a Goronwy Price Morris o Gefn Rhythallt. Cyfnod hynod o anodd i'r teuluoedd a chyfeillion, ac rydym yn meddwl llawer amdanoch.

**Hafan Elan**
Roedd mis Rhagfyr yn brysur iawn i drigolion a ffrindiau Hafan Elan. Cawsom ginio Nadolig bendigedig yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda. Wedyn cawsom fynd i gael cinio yn Table Table Caernarfon, cyn mynd i Galeri i gyngerdd Tonic efo Rhys Meirion. Pnawn llwyddiannus eto.

Fe drefnodd Beverley y warden ein bod yn cael bwffe Nadolig yn y Ganolfan gyda gêm o Bingo, lle'r oedd rhaid llenwi'r cerdyn efo caneuon Nadoligaidd Roedd digon o hwyl yno'r prynhawn hwnnw. Rhaid diolch yn fawr i Pali o Siop Spar am anfon poteli o Bucks Fizz i'r Ganolfan i ddathlu'r Nadolig. Diolch hefyd i Elizabeth am drefnu'r ymweliadau.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Eryl Roberts, 56 Glanffynnon a ddaeth yn hen nain unwaith eto ar Noswyl Nadolig. Ganwyd Nico Lleu i Sioned a Joe ac mae Ada Fflur ei chwaer fawr wedi gwirioni. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

**Penblwydd arbennig**
Penblwydd Hapus iawn i'r Cyngh. Berwyn Parry Jones, Glanffynnon oedd yn 70 oed ar y 9fed o Ionawr. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu efo'r teulu a phob dymuniad da i chi.

Hefyd, roedd Berwyn Hughes, Glanffynnon yn dathlu ei benblwydd yntau yn 70 ychydig cyn y Nadolig. Ein dymuniadau gorau i chithau hefyd Berwyn.

# Y Twnnel Sych



Y Twnel Sych

Dic a Dewi oedd fy ffrindiau pennaf yn y 60'au. Ein tri yn farchogion dewr o "Pessaweun" a'r byd i gyd wrth ein traed yn y gwyliau haf poeth bendigedig yna. Crwydro ymhell, gwneud bwa saeth a sling, dringo coed a gwneud den. Oedd, 'roedd pob dim yn berffaith. Hynny yw, hyd nes i ni gael cweir.

Digwydd bod, aeth pethau'n flêr rhyngom ni a grŵp arall o fechgyn, a ni ddaeth allan ohoni waethaf. Gyda'r sarhad yma yn flas drwg yn ein cegau, daethom i fyny efo cynllun i gael dial. 'Roedd angen codi byddin, un digon mawr i fynd i ymosod ar y bechgyn a rhoi cweir iawn yn ôl iddynt. Roeddwn yn gwybod yn union lle i fynd i gael y fyddin yma - i Lanrug.

'Roeddem wedi dod ar draws hogia Llanrug o'r blaen. Cyfarfod â nhw yn gyntaf pan welsom fod dieithriaid wedi bod mor ddigywilydd a mynd i chwarae yn ein hoff leoliad sef "Graig Fawr," heb sylweddoli wrth gwrs fod "Graig Fawr" yr un mor agos i Lanrug ac y mae o i Benisarwaun, a bod ganddyn nhw cystal hawl a ninnau i fynd yno i chwarae.

Ta waeth, yn hytrach na gwneud gelynion, gwneud ffrindiau wnaethom efo hogia Llanrug ag atyn nhw yr oeddem am fynd i godi ein byddin.
Kevin (Kevin Pierce Jones) oedd "brenin" hogia Llanrug ac wrth gerdded tuag at Dafarn Pen Bont, dyna lle roedd o gyda chriw o'i hogia tu allan i "Siop Bont" (lle, mewn blynyddoedd wedyn, y byddai Wali Tomos yn mynd i gael ei bapur newydd). Fe wnes i adnabod Gers (Gerwyn Llewelyn Jones) yn syth. 'Roedd Gers yn dipyn o arwr yn ein llygaid ni. Er bod gennym bron i gyd "*slings*" (*catapults*), rhai wedi eu gwneud ein hunain allan o bren a rwber allan o "diwb" beic, roedd gan Gers un "go iawn," - un wedi ei brynu o siop Huxley Jones yng Nghaernarfon. Roedd wedi ei wneud allan o fetel gyda rwber pwrpasol ac wedi costio ffortiwn.

Wrth edrych yn ôl, dwi'n cofio fod "Ben" yno hefyd. Richard Roberts oedd ei enw iawn ond "Ben" oedd o, a "Ben" fuodd o, ac efallai mai "Ben" ydi o hyd heddiw os ydi o dal efo ni. Dwi ddim yn cofio'n glir pwy arall oedd yno, ond carwn wybod os oes rhywun arall yn adnabod y stori yma ar ôl ei darllen.

Gofynnais i Kevin am gymorth i orchfygu ein gelynion ac eglurodd ei fod eisoes wedi penderfynu eu bod am fynd am dro i "Twnnel Sych" - OND er hyn (a chwarae teg iddo), eu bod yn hollol fodlon dod ar unwaith i'n cefnogi ni. Yna gofynnais y cwestiwn a oedd i newid bob dim i mi hyd heddiw; "Be ydy'r Twnnel Sych 'ma?" 'Roedd ateb Kevin yn fythgofiadwy; "Mae yna le hudolus", meddai, "lle na all neb fynd yno heb yn gyntaf ymlusgo fel "*Commando*" drwy "dwnnel hud." Mae'r twnnel yma yn hir a thywyll, a phan 'da chi yn dechrau ymlusgo trwyddo, dim ond pelydryn bychan o olau sydd i'w weld yn y pellter. Tydi dod o hyd i'r twnnel ddim yn hawdd chwaith. Yn gyntaf, rhaid neidio oddi ar y bont i ben coeden uchel ac wedyn gweithio eich ffordd i lawr a dod o hyd i'r hen reilffordd.

**Merched y Wawr**
Nos Fawrth, Rhagfyr 12fed, bu nifer o aelodau'r gangen yn dathlu'r Nadolig yn 'Y Wal', Caernarfon. Dymunir diolch i'r trefnwyr am drefnu noson gyfeillgar iawn ac i Anwen am baratoi 'Cwis Cerddorol', gyda thîm Heulwen a'r criw yn dod i'r brig gyda marciau uchel iawn.

Nos Fawrth, Ionawr 9fed, estynnwyd croeso i bawb ar noson finiog oer gan ein Llywydd, Bethanne, gan ddymuno Blwyddyn Newydd Heddychlon i bawb. Dymunwyd penblwyddi arbennig i rai o'r aelodau. Cydymdeimlwyd â Hywel a Susan ar golli brawd a brawd yng nghyfraith yn Nolwyddelan.

**Ambiwlans Awyr Cymru**
Atgoffwyd pawb mai prosiect ein Llywydd Cenedlaethol 2023-25, Geunor Roberts, yw 'Ambiwlans Awyr Cymru'. Erfynnir ar i bawb gasglu sgarffiau a chadwyni ym mis Chwefror a Mawrth. Noson 'Dathlu Gŵyl Ddewi' bydd cyfle i'w harddangos a bydd cyfle i brynu.

**Yr Urdd**
Cynhelir Eisteddfod Cylch yr Urdd ar ddydd Sadwrn Chwefror 24ain o 9yb ymlaen. Bydd y Gangen yn cynnal Caffi yn y ffreutur. Cafwyd cyfle i lenwi Ffurflen Bwyd a Rota.

Ers 1930 mae miloedd o blant Cymru wedi cael budd o fynychu gwersylloedd Haf yr Urdd. Mae'r Urdd yn fudiad i bawb ac am sicrhau fod cyfle i gymaint â phosibl o blant greu atgofion yng Ngwersyll Haf yr Urdd. Derbyniwyd apêl 'Cronfa Cyfle i Bawb' er mwyn cynnig gwyliau Haf i 250 o blant yn 2024. Bydd £180 yn talu am wyliau pum niwrnod yn llawn gweithgareddau, trafnidiaeth, bwyd a llety. Buasai'r Gronfa yn hynod falch o unrhyw gyfraniad.

**Merched y Wawr**
*Gŵr gwadd*
Gŵr gwadd y noson oedd Iwan Roberts - cyn-athro, Swyddog Addysg, cerddor ac un sy'n gasglwr pob math o bethau. Treuliwyd orig hynod o ddifyr, hanesyddol ac addysgiadol yn gwrando arno'n olrhain hanes 'Disgwyl y Post' yn yr ardal hon.

Doedd dim post swyddogol ar gael, y llythyr cyntaf o'r ardal hon oedd o Fachwen ar 16/10/1578. Ni fu gwasanaeth post ar gyfer y



**Gweddillion y Gearbox;**



**Y Garreg**

Wedyn, cael hyd i "Dwnnel Hud." Os oes rhywun yn ddigon dewr i ymlusgo'r holl ffordd drwy'r twnnel yma, fe ddaw i graig anferth wrth yr afon, ac ar y "graig hud a lledrith" yma mae pob dim yn bosib. Wrth y graig mae llwybr anweledig sydd yn arwain ar draws yr afon i'r ochr arall. Nid pawb all ddod o hyd i'r llwybr arbennig yma sydd â'i wyneb o dan y dŵr.

Ar ôl croesi i'r ochr arall mae yna gar - hen gar Al Capone ydi o. Caiff rhywun fynd i mewn iddo a'i "ddreifio!"

Anghofiwyd pob dim am y frwydr. "Ddown ni efo chi" oedd fy ateb.
Ffwrdd a ni yn ôl at y bont a dilyn Kevin. Y gamp gyntaf oedd dringo i ben y bont, anelu am frigau coeden reit uchel oedd yn tyfu o'r cae yr ochr arall a neidio i'w brigau. Yna dringo yn ofalus i'r gwaelod ac i'r cae.
Gyda phawb yn awyddus i ddangos eu hunain i'r lleill, fe aethom i gyd i lawr yn reit sydyn, arwahan i Ben druan. Ar ôl neidio i'r goeden, diflannodd hyder Ben yn gyfan gwbwl. Dyna lle yr oedd o, fel cwningen yng ngolau modur yn methu symud! Amhosib yn awr iddo fynd yn ôl, a dyna lle 'roeddem i gyd yn gweiddi arno i ddringo i lawr. Ond methu symud wnaeth Ben. Yn y diwedd dringodd Kevin yn ôl i fyny i'w achub ac ar ôl siarad yn ofalus a chreu hyder ynddo, dringodd Ben i lawr ac ymuno â'r gweddill ohonom.

Yna cawsom hyd i'r hen reilffordd a cherdded ar ei hyd i ddarganfod y "Twnnel hud." A dyna lle 'roedd o, yn union fel ag y disgrifiodd Kevin i ni. I lawr a ni, a heb boeni am faeddu na brifo, dyma ni i gyd yn dechrau ymlusgo trwyddo. Unwaith i mewn, 'toedd yna ddim troi yn ôl. 'Roedd hogia y tu ôl i chi a rhai o'ch blaen chi. Duw a ŵyr be a ddigwyddai pe byddai un ohonom yn mynd yn sownd!

Ymlaen a ni a dod allan i *Shangri-La* perffaith yn yr heulwen. Dyma oedd nefoedd i hogia bach. Craig hudolus yn yr afon, cyfle ei dorheulo, nofio yn yr afon neu dim ond synfyfyrio a gwrando ar ei sŵn. Rhyw ganllath ei fyny'r afon roedd 'na "lwybr anweledig" yn croesi ar draws. Llwybr cul llithrig wedi ei guddio o dan y dŵr oedd o, ond digon dwfn i'w guddio a digon uchel i hogia bach drwg a heini deg mlwydd oed allu ei groesi'n rhwydd yn eu wellingtons!

Ar yr ochr arall yr oedd car. *Austin Seven* oedd o, a Duw a ŵyr sut y daeth i fod yno. Mae'n rhaid bod rhywun wedi ei 'ddympio' i lawr ochr y llethr ar ôl iddo ddarfod ei oes. Ond i ni'r hogia, roedd o'n berffaith i ni gael dychmygu ein bod yn "*Gangsters*" ac yn ei ddreifio fel coblyn i ddianc rhag y "*Cops*!"


Ar ôl anturiaethau lu, dywedodd y cloc yn ein boliau ei bod yn amser mynd adra. Nid oedd yn bosib dringo'r llethr ochr Llanrug yr adeg hynny gan ei fod mor serth ac wedi ei orchuddio â rhedyn. Felly yn ôl y ffordd ddaethom ni yr oedd rhaid mynd.

Wrth ddychwel tuag adre i fyny Lôn Bach Cae Hywel, edrychais ar Dic a Dewi ac nid oedd angen geiriau. 'Roeddem wedi rhannu rhywbeth unigryw.

Un o "Hogia Llanrug" ydw i erbyn hyn. Wedi bod yn byw yma ers dros ugain mlynedd bellach. Ar ôl blynyddoedd o waith caled, 'rydym yn gallu mynd i lawr at yr afon o'r ochr yma 'rwan. Bydd Pat fy ngwraig, Medi'r ci a minnau yn cerdded i lawr yno bob bore, glaw neu hindda. Mae yn rhan o'n "*ritual*" cyn cael brecwast, a thrwy gyd-ddigwyddiad hollol anghredadwy, dyma'r union fan lle yr oedd yr hen *Austin Seven*. Mae o wedi hen fynd bellach. Yr afon wedi ei fwyta i gyd a'i gario ymaith.

Yn ddiweddar, cefais y newyddion trist iawn fod Kevin a Gers wedi ein gadael hefyd. Ond, cefais hyd i weddillion "*gearbox a gear stick*" yr hen fodur yno, ac 'rydw'i wedi eu hachub a'u harddangos wrth ochr y fainc er côf am yr amseroedd hapus a aeth heibio. Ar yr ochr arall i'r afon mae'r "Graig Hud a Lledrith." Llyn Carreg ydi'r enw a roddir arni gan bysgotwyr. Mae'r "Llwybr Anweledig" yn dal yno hefyd. Cefais wybod yn ddiweddar mai rhyw fath o argae tanddwr ydi o, wedi ei adeiladu flynyddoedd yn ôl i ddal a chario dŵr i ffatri Ferodo yng Nghaernarfon.

Er ei fod wedi ei orchuddio gan flynyddoedd o dyfiant tanddwr, cefais hyd iddo, ac fe lwyddais i groesi unwaith eto, er fy mod yn awr yn simsan, crynedig ac ofnus. Wrth i mi gerdded yn ôl i fyny'r llethr tuag adra i gael fy mrecwast, fe'i gwelais o'n glir ar ochr arglawdd y rheilffordd ac yn galw arnaf dros atgofion ac amseroedd y blynyddoedd – Y TWNNEL SYCH.



cyhoedd tan tua 1660. Doedd dim Swyddfeydd yn y pentrefi. Rhaid oedd mynd a llythyrau i Gaernarfon neu fynd yno i'w hôl. Erbyn 1840 bu cynnydd yn y boblogaeth gan fod y chwareli yn datblygu a chynnydd yn y gyfran lythrennog.

Ionawr 1848 bu chwilio am dŷ ar rent yn Llanberis i gynnal Swyddfa Bost.

Yn 1851 bu cyfrifiad. Cafodd un o weision Gwesty Fictoria, Llanberis ei ddisgrifio fel 'post keeper' ac un arall fel 'postboy'. William Mathew oedd Postfeistr cyntaf yr ardal.

Hydref 1853 - Bu Morris Jones yn Bostfeistr yn Ebeneser yn 'Deiniolen House'. Ailenwyd y pentref yn 'Deiniolen' yn 1926. Mae'r Swyddfa bellach yn Beran ers 2017.

Ebrill 1857 - Agorwyd Swyddfa Bost yn Seion.

Mehefin 1857 - Agorwyd Swyddfeydd yn Llanrug a Chwm y Glo ar yr un diwrnod. Cauwyd Cwm yn 1996, gan ail-agor o 1999 hyd 2008. Mae Swyddfa Bost Llanrug bellach yn siop Spar.

Agorwyd Swyddfa Bost yng Nghaeathro yn 1880-1995 ac mae bellach yn Garej Gwalia ers 2019.

Bu Swyddfa Clwt y Bont ar agor o 1881 hyd 2013.

Bu Swyddfa Bost Ceunant yn agored o 1851 hyd 1894 ac yna hyd 1968.

Cauwyd Swyddfa Bost Penisarwaun yn 2003 a Swyddfa Bost Bethel yn 2020.

Bu Swyddfa Bost yn Nant Peris o 1882 hyd 1995 ac yn Ninorwig o 1888, a 1897 hyd 1979.

O 1897 hyd 2006 bu Swyddfa Bost a Siop yn Rhiwlas. Yr unig Bost yn ardal Llanddeiniolen sy'n dal ar agor yn yr adeilad gwreiddiol ers 1893 yw Post Brynrefail.

Diolchwyd i Iwan am noson ddifyr, llawn straeon cyfoethog, llawn gwybodaeth am wasanaeth amhrisiadwy'r Post, gan lwyr obeithio y pery'r Gwasanaeth am flynyddoedd i ddod.

Dymunir diolch i Iwan am roi ei gyfraniad ariannol i 'Gronfa Cyfle i Bawb yr Urdd'.

Diolch i Nan, Rhiannon, Julie a Sioned am ofalu am y baned.

*Cyfarfod nesaf*
Ar 6ed Chwefror - Edrychir ymlaen at gwmni Anna Pritchard, y Wehyddwraig o Ddyffryn Ogwen.

# Ysgol Llanrug

**Mynediad i Ysgolion Cynradd**
Os ydi eich plentyn yn dod i oed cychwyn ysgol ym mis Medi 2024, mae angen cyflwyno cais cyn 1 Chwefror 2024 iddynt fynychu un o ysgolion cynradd Gwynedd. Cliciwch ar y ddolen am fwy o wybodaeth: orlo.uk/Gwynedd_Y1 FIb#yagym




**Twrnament**
Bu'r genethod yn cynrychioli'r ysgol cyn y Nadolig mewn twrnament pêl-rwyd ym Mangor.



**Rhaglenni Cyw-Awyr Iach**
Rydym yn falch iawn o'r brawd a'r chwaer yma sydd wedi bod yn ffilmio ar gyfer rhaglen Awyr Iach sydd ar Cyw. Ewch draw i'r wefan i wylio pennod 2: #Cyw#Awyriach









**Ymweliadau**
Cafodd pawb gyfle i weld sioe neu fynd i'r sinema yn ystod mis Rhagfyr. Bu'r Dysgu Sylfaen draw yn y Galeri yn gwylio sioe Cyw a bu Cyfnod allweddol 2 yn gwylio ffilm '*Wish*'. Daeth @profllusern draw i wneud hud a lledrith i'r Meithrin.

**Yr Urdd**
Cofiwch wneud nodyn o'r dyddiadau isod:



EISTEDDFODAU CYLCH ERYRI 2024

| | | |
|---|---|---|
| 24/02/24 | Eisteddfod Cylch Arfon | Ysgol Brynrefail |
| 24/02/24 | Eisteddfod Cylch Dyffryn Nantlle | Ysgol Dyffryn Nantlle |
| 24/02/24 | Eisteddfod Cylch Llŷn | Ysgol Glan y Môr |
| 02/03/24 | Eisteddfod Cylch Bangor Ogwen | Ysgol Dyffryn Ogwen |
| 02/03/24 | Eisteddfod Cylch Eifionydd | Ysgol Eifionydd |

Dyddiadau Cau Cofrestru 2024
Dawns + Offerynnol - 22ain IONAWR
Llwyfan - 5ed CHWEFROR
Celf a Chrefft, Gwaith Cartref + 19-25oed - 1af MAWRTH



**Perfformiadau Nadolig**
Cafwyd perfformiadau arbennig gan y Meithrin, Dysgu Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.



# Diweddariad GwyrddNi

**Grŵp Dŵr a Thir**
Mae'r rhwydwaith Dŵr a Thir yn tyfu'n dda. Blwyddyn nesaf bydd cyfres o ymweliadau ymgynefino, rhaglen addysgu cymunedol a dyddiau clirio Jac y Neidiwr. Bydd cefnogaeth hefyd i ymdrechion clirio Lagarosiphon Major o lyn Padarn a pharhau cydwewithio gyda Prosiect Natur Llanddeiniolen.

**Dadgarboneiddio Adeiladau**
Mae'r Grŵp wedi bod yn mapio prosiectau ac adnoddau lleol a mireinio ble y gallent ychwanegu gwerth fel gwirfoddolwyr. Byddent yn cefnogi prosiectau dadgarboneiddio adeiladau cymunedol blwyddyn nesaf ar draws y Dyffryn. Bydd Cynhadledd 'Retrofit' GwyrddNi Gwynedd ar y 27.1.24 yn arddangos amrediad o brosiectau a phosibiliadau lleol.






**Cymunedoli**
Mae 'na bentwr o waith gwych yn digwydd ar draws cymunedau Dyffryn Peris. Oriau maith gan wirfoddolwyr, cyllid yn cael ei godi yma ac acw, digwyddiadau yn cael eu trefnu, adeiladau a'r byd naturiol yn cael eu gwarchod ac yn ganolog i bopeth, gofalu am ein gilydd. Mae peth sôn wedi bod am y syniad o greu rhwydwaith neu bartneriaeth bwrpasol i gefnogi hyn oll. Cynhelir cyfarfod ar 31.1.24, Neuadd Goffa Llanrug, 19:00- 21:00 i gysidro hyn. Croeso i bawb.

**Rhaglen Addysg**
Mae 20 o athrawon a staff cymorth mewn 20 ysgol gwahanol ar draws Gwynedd wedi ymgysylltu o leiaf bedair gwaith â gwybodaeth am newid yn yr hinsawdd a datrysiadau hinsawdd cymunedol.

Roedd yr ymgysylltu yn cynnwys:
- sesiwn dwy awr ar newid hinsawdd,
- diwrnod o ymweliadau a datrysiadau hinsawdd lleol,
- cynulliad hinsawdd ysgolion,



- cyflwyno canfyddiadau cynulliad hinsawdd yr ysgol i'r cynulliad cymunedol ar yr hinsawdd,
- sesiynau gweithredu hinsawdd ymarferol (roedd y rhain yn cynnwys adeiladu melin wynt o ddeunyddiau wedi eu hailddefnyddio, creu podlediadau i hyrwyddo'r clwb bwyd lleol a chyfnewidfa gwisg ysgol gymunedol, lobïo'r Aelod Seneddol ar ddatblygu llwybr cerdded a beicio rhwng dau bentref, gwnïo atalyddion drafft i'w rhannu ag aelodau'r gymuned, cyfnewidfa gwisg ysgol yn y ffair ysgol, creu gwybodaeth i'w rhannu ar deithio llesol a chynaliadwy lleol, rheoli rhywogaethau ymledol mewn coetir cymunedol, a chodi sbwriel)

Enghraifft leol o ganlyniad sesiwn weithredu ymarferol yw bod Ysgol Uwchradd Brynrefail bellach yn anfon grwpiau o fyfyrwyr i wirfoddoli ar fferm cydweithredol ac organig Tyddyn Teg ar ôl diwrnod o ymweliadau â datrysiadau hinsawdd lleol a drefnwyd gan GwyrddNi.

**Stori'r Tir**
Beth ydi stori ein perthynas gyda'r tir yn Nyffryn Peris?
Mae Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd Dyffryn Peris yn gwahodd cyfraniadau i brosiect creadigol sy'n casglu a rhannu storïau ynghylch ein perthynas gyda'r tir yn lleol.
Rydym eisiau dod a'r gymuned at ei gilydd i gipio doethineb y cenedlaethau blaenorol, hybu hunaniaith a chyswllt gyda'r tir a'r iaith Gymraeg.
oes gennych chi gyswllt gyda'r tir?
oes gennych chi stori i'w rhannu?
hoffech chi weithio gydag eraill i gyd-greu a rhannu storïau?
ydych chi'n berson creadigol neu'n storïwr?
Os mai "ydw" yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau yma, yna hoffem glywed gennych chi.
Gwahoddwn ffermwyr, mamau, crefftwyr, trigolion, henoed, haneswyr, artistiaid, tyfwyr, cwlwm-wylwyr, cerddwyr, chwarelwyr, cadwriaethwyr… pawb, i ymuno â ni!
I wybod mwy ewch i https://tinyurl.com/Storirtir

**Trwsio, Rhannu, Benthyg**
Mae hi wedi bod yn ddechrau da iawn i'r ffrwd gwaith Economi Gylchol o Gynllun Gweithredu Dyffryn Peris. Mae Caffis Trwsio wedi egino yn Llanrug, Bethel, Llanberis a gobeithio y bydd un yn Deiniolen yn y flwyddyn newydd. Cafodd ein llwyddiant ei rannu ar S4C!
Mae cynlluniau cyffrous ar droed ar gyfer llyfrgell fenthyg/siop swap offer mynydd i Lanberis hefyd.

# Gwobr Haeddiannol




Derbynodd Andrew Williams wobr gwirfoddolwr y flwyddyn yn seromoni wobrwyo Byw'n Iach ar 5ed Rhagfyr 2023 yn Galeri Caernarfon. Cyrhaeddodd Clwb Pêldroed Bethel y restr fer ar gyfer Clwb y Flwyddyn yn ogystal.

Mae Andrew wedi bod yn ran o glwb pêldroed Bethel ers blynyddoedd erbyn hyn ond mae ei waith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn amhrisiadwy. Mewn cyfnod ble mae'r clwb yn ehangu a datblygu, Andrew yw calon y clwb.

Y flwyddyn yma mae Andrew wedi ac yn parhau i:

Gadeirio y Clwb
Hyfforddi tîm dan 13/14 ers Medi 2023
Trefnu Twrnamaint Pasg 2023
Cynnal a chadw cyfleusterau y clwb.

Andrew yw Cadeirydd y clwb flwyddyn yma, mae ei weledigaeth ar gyfer y clwb a dyfodol pêl-droed ieuenctid Bethel a'r dalgylch yn ysbyrydoledig. Mae'n gweld cyfleoedd i'r aelodau, ac yn gefnogol iawn o'r hyfforddwyr a gwirfoddolwyr eraill sydd ynghlwm â'r clwb. Mae Andrew yn gwybod enw pob chwaraewyr o'r rhai ieuengaf dan 5 hyd at y rhai dan 15. Pob cyfle mae Andrew yn ei gael, mae ar ochr caeau yn cefnogi'r hyfforddwyr a'r tîmau bob penwythnos. Mae rhieni, chwaraewyr, hyfforddwyr, gwirfoddolwyr a'r pwyllgor yn edmygu ymdrechion Andrew ac ni fuasai'r clwb yr hyn ydyw heddiw heb ei ymdrechion.

Mae wedi bod yn hyfforddi tîm dan 13 y clwb (dan 14 ers Medi 2023). Mae ganddo berthynas gryf gyda'r tîm ac mae'r chwaraewyr yn ymddiried ynddo ac yn ei barchu. Bydd Andrew yn hyfforddi y tîm yn wythnosol ac ar ochr y cae bob bore dydd Sadwrn mewn gêm. Mae'r tîm dan hyfforddiant Andrew wedi cael cryn dipyn o lwyddiannau dros y blynyddoedd ond yn benodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan ennill cwpan cyngrair Gwyrfai, cyrraedd y rownd gyn-derfynol yng nghwpan Arfordir Gogledd Cymru, curo 7 allan o 8 twrnamaint a chyrraedd y rownd derfynol yn yr 8fed twrnamaint. Mae Andrew wedi annog y tîm yma i fynd ati i ddyfarnu a hyfforddi yn ogystal â helpu gyda'r gwaith o amgylch cyfleusterau'r clwb - peintio, torri gwair, casglu sbwriel ac ati. Heb os, mae Andrew yn gweld y darlun cyflawn i ddatblygiad y chwraewyr nid yn unig ar y cae pêl-droed ond mewn bywyd bob dydd yn y gymuned.

**Trefnu Twrnamaint Pasg 2023**
Cynhaliwyd twrnamaint Pasg 2023 CPD Bethel flwyddyn yma dan arweiniad Andrew. Cydlynodd Andrew dîm o wirfoddolwyr i drefnu twrnamaint ddenodd 1,200 o chwaraewyr, 240 o hyfforddwyr, rhieni, teuluoedd a'u cefnogwyr dros ddau benwythnos llawn. 120 o dîmau yn cystadlu am gwpanau wedi noddi gan gwmniau lleol. Roedd Andrew ar y caeau o 6am hyd at 9pm dros y pedwar diwrnod yn ogystal a'r oriau o farcio caeau ar gyfer y twrnamaint, torri gwair, gosod y fflagiau, gôls ac ati. Dan ei arweiniad aeth popeth fel wats a'r twrnamaint yn lwyddiant.

Mae Andrew yn mynd y filltir neu'r milltiroedd ychwanegol o hyd. Mae safon y caeau chwarae yn cae top Bethel yn arbennig, ac mae cydnabyddiaeth gan glybiau lleol eraill yn destament i'r oriau o waith mae Andrew yn ei gyflawni yn cynnal a chadw cyfleusterau'r clwb. Mae ganddo weledigaeth ac yn sicr mae ei ymrwymiad eleni wedi bod yn glir i bawb ei weld. Os na fydd Andrew ar y caeau, mae pobl yn cwestiynu "ble mae Andrew"? Nid yw'r caeau yn caeau top Bethel heb Andrew yno yn eu cynnal!! Does dim posib cyfri'r oriau mae Andrew wedi ei dreulio ar y caeau yn ystod y flwyddyn, mae'n hyd yn oed bwyta ei de yno! Wrth gwrs, y rheswm mae Andrew yn rhoi ei amser i gynnal y caeau yw i alluogi y nifer fwyaf




phosib o blant a phobl ifanc gael chwarae pêldreod a mwynhau ar stepen drŵs. Mae Andrew yn ymfalchio yn ei waith ac yn falch iawn o gyfleusterau'r clwb. Bydd wrth ei fodd yn gwylio ei wyrion yn chwarae ar foreau Sadwrn a'i fab yn hyfforddi. Mae'n esiampl i'r genhedleaeth nesaf.

Andrew yw calon y clwb pêldroed, mae ei waith a'i amser amhrisiadwy wedi arwain at nifer iawn o blant a phobl ifanc yn mwynhau pêl-droed ac mae'r clwb wedi cael sawl llwyddiant a sylw o dan arweiniaeth Andrew yn ystod y flwyddyn. Mae cyn aelodau a chwaraewyr mewn cyn-dîmau y buodd Andrew yn eu hyfforddi wedi dychwelyd i'r clwb i hyfforddi tîmau eleni yn dilyn annogaeth a chefnogaeth Andrew.

Mae gweledigaeth Andrew o'r gêm bêl-droed yn eang iawn a rydym fel clwb yn lwcus iawn ohono.

"Mae Taid yn byw a bod yn cae top a dwi yn licio mynd i helpu fo i dorri gwair. 'Da ni yn cael lot o hwyl yn *trainings* a gêmau ni. Mae Taid eisiau ni wneud yn dda." Geiriau gan Max sydd yn ŵyr i Andrew ac yn aelod o'r tîm mae Andrew yn ei hyfforddi.

Mae'r gwaith gwirfoddol sydd yn mynd ymlaen tu ôl i'r llenni yn hanfodol i glybiau lleol. Mae Andrew yn wirfoddolwr sydd yn cario CPD Bethel, mae angen dathlu ei lwyddiant ac yn fwy na dim cael cyfle i ddiolch iddo nid yn unig am ei lwyddiannau a gwaith am y flwyddyn yma ond am flynyddoedd sydd wedi mynd heibio a sydd i ddod gobeithio!

# CHWILAIR MIS CHWEFROR DINASOEDD

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | B | E | Rh | O | N | Dd | U | A | C | Ng | L | I | W | S |
| C | B | R | U | Ch | R | E | S | Ll | U | N | D | A | I | N |
| L | W | E | O | L | O | R | F | E | R | U | Ll | R | E | T |
| E | N | S | R | I | G | Rh | O | Ff | H | T | C | W | B | I |
| R | A | T | E | T | N | S | B | R | Y | G | A | L | R | T |
| P | E | R | Th | Ch | A | Th | C | A | S | N | E | W | Y | Dd |
| W | B | W | D | S | B | W | A | G | O | F | R | C | S | A |
| L | U | R | N | T | F | Ng | E | W | D | S | E | Y | T | C |
| C | T | E | Ch | I | L | A | R | Y | E | U | D | Ll | E | W |
| R | Ll | C | M | R | O | H | D | N | I | G | I | Y | Ff | O |
| Th | A | S | M | L | M | P | Y | W | L | E | N | A | Ll | G |
| E | N | A | Y | I | W | E | Dd | Ŷ | T | L | D | N | A | S |
| F | P | M | A | N | C | E | I | N | I | O | N | D | T | A |
| D | I | S | O | G | N | L | T | W | E | R | N | I | E | L |
| H | Ff | D | U | L | Y | N | Dd | Y | F | E | F | R | O | G |

**Tybed allwch chi ateb y cwestiynau canlynol:**

1. Sawl dinas sydd yng Nghymru erbyn hyn?
2. Pa le sydd yn y chwilair NAD yw'n ddinas? Cliw bach i chi - mae yng Nghymru.
3. Pa dair dinas sydd yn brif ddinasoedd?

**Cewch yr atebion i'r chwilair a'r cwestiynau yn rhifyn nesaf yr Eco.**

**Cofiwch fod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.**

ABERHONDDU
ABERTAWE
BANGOR
BRYSTE
CAERDYDD
CAEREDIN

CASNEWYDD
DULYN
EFROG
GLASGOW
LERPWL
LLANELWY

LLUNDAIN
MANCEINION
PERTH
STIRLING
TŶ DDEWI
WRECSAM



## CHWILAIR MIS IONAWR - BLWYDDYN NEWYDD DDA!

Dyma atebion i chwilair cyntaf 2024. Blwyddyn newydd dda i chi i gyd.

IONAWR
CHWEFROR
MAWRTH
EBRILL
MAI
MEHEFIN
GORFFENNAF
AWST

MEDI
HYDREF
TACHWEDD
RHAGFYR
BLWYDDYN NEWYDD DDA
BLWYDDYN NAID
BLWYDDYN Y DDRAIG

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ff | B | E | D | W | F | A | N | N | E | Ff | R | O | G | A |
| N | E | M | A | I | Ch | R | H | P | D | Dd | N | I | E | D |
| R | C | T | E | F | I | Ng | R | A | D | I | A | W | S | Y |
| D | Ll | I | B | G | C | A | W | S | T | R | F | T | G | L |
| M | A | W | R | Th | S | W | B | R | Dd | O | M | Ph | B | O |
| E | Y | Rh | M | T | U | D | I | Y | Ll | Ff | E | N | L | D |
| H | F | S | O | C | G | U | N | A | Dd | E | Ll | F | W | S |
| E | E | B | H | Dd | F | Y | W | M | Rh | A | G | F | Y | R |
| F | B | L | W | Y | Dd | Y | N | N | E | W | Y | Dd | Dd | A |
| I | R | Ch | Rh | Y | D | E | M | N | A | D | D | E | Y | I |
| N | I | S | W | Dd | B | R | C | T | F | S | I | W | N | H |
| E | Ll | L | U | E | S | Y | E | Y | I | R | B | Ch | N | Dd |
| T | B | Y | R | A | Ch | W | E | F | R | O | R | A | A | O |
| I | A | W | C | Dd | E | L | S | B | Y | N | E | T | I | N |
| F | R | I | O | N | A | W | R | T | Ll | G | H | R | D | S |

## Ysgol Waunfawr



**Presenoldeb 100%**
Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion am lwyddo i gyrraedd yr ysgol pob diwrnod yn Nhymor Yr Hydref 2023. Am gamp!

**Themau**
Dyma yw ein themau ar gyfer tymor. Tybed a oes gennych chi ddiddordeb neu arbenigedd mewn maes penodol a fyddai o fudd i'r plant?
Meithrin/Derbyn: Y Gaeaf
Blwyddyn 1+2 :Yr Affrig
Blwyddyn 3+4: Y Celtiaid
Blwyddyn 5+6: Adar

**Banc Bwyd Arfon**
Casglwyd llwyth o duniau bwyd ar gyfer y banc bwyd yn ddiweddar. Diolch yn fawr i rieni'r ysgol am eu haelioni.

**Diolchiadau**
Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i'r sefydliadau canlynol am eu haelioni yn ddiweddar. Bydd yr arian yn cael ei wario ar adnoddau a gweithgareddau ar gyfer y plant yn ystod y flwyddyn:
£50 gan tafarn Parc Snowdonia
£50 gan mynychwyr paned a sgwrs
£250 gan genod Gwyrfai
£700 Pwyllgor Marathon Eryri.

Braf oedd gweld y tywydd yn ein cynorthwyo gyda thema'r Gaeaf yn ddiweddar. Pawb wrth eu boddau yn cael arbrofi gyda'r rhew ac eira.





# 2024: Ysbryd cymunedol yn disgleirio wrth i gymunedau lleol baratoi ar gyfer y flwyddyn i ddod

Mae chwech o bob deg yng Nghymru'n dweud bod ysbryd cymunedol yn gryf lle maen nhw'n byw (63%) a'u bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned leol (68%)

Mae'r mwyafrif (68%) yn fodlon gweithio gydag eraill i wella eu cymuned leol, a dywed hanner (50%) eu bod yn bwriadu gwirfoddoli yn 2024

Yng Nghymru, cefnogi pobl gyda chostau byw cynyddol yw'r brif flaenoriaeth ar gyfer gwella lles mewn cymunedau yn 2024

Grwpiau lleol i dderbyn hwb yn 2024 wrth i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ddyblu ei hymrwymiad i grantiau ar lawr gwlad.

Ar gychwyn 2024 mae ymchwil newydd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol - ariannwr cymunedol mwyaf y DU - yn datgelu bod ymdeimlad pobl o ysbryd cymunedol ac awydd pobl i gefnogi eraill yn parhau yn gryf.

Dywed wyth o bob deg (79%) ei bod yn bwysig iddyn nhw deimlo'n rhan o'u cymuned leol, ac mae chwech o bob deg (63%) yn dweud bod ysbryd cymunedol yn gryf lle maen nhw'n byw. Yn galonogol, mae llawer (68%) yn dweud eu bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned leol, gyda'r holl fanteision sy'n gysylltiedig â hyn.

Mae'r rhain yn cynnwys teimlo'n fwy diogel (60%), cael mwy o ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd (60%) a mwy o ymdeimlad o berthyn (56%) yn eu hardal leol. Mae eraill yn gwerthfawrogi'r cyfle y mae'n ei roi i feithrin cyfeillgarwch a chysylltiadau, gyda 44% yn dweud bod cael cyfle i gwrdd â phobl yn fudd o fod yn rhan o'u cymuned.

Mae'r mwyafrif (68%) yn fodlon gweithio gydag eraill i wella eu cymuned leol, ond dim ond tua hanner sy'n teimlo bod ganddynt y cyfle (50%) neu'r gallu i chwarae rôl (45%).

Er gwaethaf hyn, mae hanner (50%) yn bwriadu cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli yn eu cymuned leol yn 2024 - gydag un o bob deg (11%) yn bwriadu gwirfoddoli am y tro cyntaf.

Ymhlith y rhai sy'n bwriadu gwirfoddoli eleni, banciau bwyd (28%), yr amgylchedd (31%), cefnogi pobl hŷn (30%) a gweithio mewn siopau elusen (25%) yw lle maent yn bwriadu canolbwyntio eu hymdrechion cymunedol.

Daw'r canfyddiadau o Fynegai Ymchwil Cymunedol diweddaraf Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, arolwg blynyddol o dros 8,000 o bobl ledled y DU sy'n darganfod sut mae pobl yn teimlo am eu cymuned leol, a beth yw eu huchelgeisiau a'u blaenoriaethau ar gyfer eu cymuned yn hirdymor ac yn y flwyddyn i ddod.

O ran lles eu cymuned leol, mae delio ag effaith costau byw yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i bobl yn 2024. Mae tri chwarter (75%) o oedolion yng Nghymru'n rhagweld y galw am fanciau bwyd lleol yn parhau i gynyddu, ynghyd â mwy o angen lleol am gyngor ar ddyledion (68%), cymorth iechyd meddwl (67%) ac elusennau tai (62%). Mae hyn yn ei gwneud yn bwysicach fyth bod ysbryd cymunedol a chyfranogiad ac awydd pobl i wirfoddoli yn parhau i fod yn gryf.

Gan edrych i'r dyfodol hirdymor a dyheadau pobl ar gyfer eu cymuned, mae dros draean o oedolion Cymru (34%) yn nodi bod llai o dlodi ac amddifadedd yn eu cymuned ymhlith y tri newid mwyaf yr hoffent eu gweld ar gyfer y genhedlaeth nesaf.



# Menaifab, 'Calondid' a Chyngerdd y Mil Plant

Ar *Facebook* mae'r bai – a'r diolch – am golofn gyntaf y flwyddyn hon. Soniais o'r blaen am y grŵp 'Englyn Bedd' sy'n cael cefnogaeth rhai cannoedd o ddilynwyr ar y cyfrwng cymdeithasol. Mae englynion bedd wedi eu casglu gan wahanol unigolion bellach, nid yn unig o Gymru, ond o wledydd eraill y Deyrnas Unedig, o America a Chanada, o Dde Affrica, Awstralia a Phatagonia. Mae'r casgliad yn parhau i gynyddu. Y gobaith yw cyhoeddi cyfrol sy'n cynnwys cyfran yn unig o'r holl englynion a gasglwyd, a hynny'n rhychwantu amser a gwahanol leoliadau. Ond mae angen gwybodaeth ffeithiol am rai englynion cyn y gellir eu cynnwys yn y gyfrol – rhai ffeithiau am yr un a goffeir, a ffeithiau hefyd am y bardd a gyfansoddodd englyn i'w roi ar y garreg fedd. Weithiau, ffugenw neu enw barddol yn unig sy'n wybyddus, a cheisir darganfod yr enw cywir. Yn ystod mis Rhagfyr, cafwyd cais am wybodaeth ynglŷn â bardd o'r enw Menaifab. Roedd rhai ffeithiau syml amdano eisoes yn fy meddiant, ond aethpwyd ati i ddarganfod mwy – a ffrwyth y chwilota yw gweddill y golofn.

Edward Hughes oedd enw bedydd y bardd a alwai ei hun yn Menaifab. Roedd yn byw yn Y Felinheli. Pam felly trafod rhywun oedd yn byw yn nalgylch papur bro arall? Am y rheswm syml iddo gael ei eni a'i fagu yn Llanddeiniolen, a'i fod yn un o amryw oedd yn aelodau o deulu llengar a cherddorol. Ganed Edward Hughes ym 1850, yn fab i Richard Hughes a'i briod Elisabeth (Williams cyn priodi). Priodwyd Richard ac Elisabeth yn Eglwys Llanddeiniolen ar y 14eg o Orffennaf 1849, ac Edward oedd y cyntaf-anedig. Ganed merch, Mary, ddwy flynedd yn ddiweddarach, ond bu hi farw yn eneth ifanc, a symudodd y teulu i'r Felinheli, ac yno, yn Rhif 2, Aber Cottages yr oeddent yn byw. (Mae un adroddiad yn honni bod y fam hefyd wedi marw pan oedd Edward yn naw oed, ac i'w dad ail-briodi.)

Roedd y teulu'n hannu o Seion, Llanddeiniolen; Elisabeth, y fam, yn ferch i Henry Williams a Mary Jones, Bryn gole. Mewn un adroddiad, dywedir fod Bryn gole ar dir fferm Tŷ Mawr, ond erbyn Cyfrifiad 1851 mae'n cael ei restru yn union ar ôl Llys y Gwynt. Er holi, does gen i ddim syniad ble yn union yn ardal Seion yr oedd Bryn gole. Methais â'i ddarganfod hefyd ar Fap Degwm Llanddeiniolen. Yn dilyn ei briodas â merch Bryn gole, symudodd Richard Hughes yno i fyw at ei dad a'i fam yng nghyfraith, ac yno y ganwyd Edward a Mary. Roedd Richard yn ei ddisgrifio'i hun fel labrwr pan briododd, ac yn byw yng Ngae Rhos, Seion. Mab oedd Richard Hughes i Hugh Williams a Martha Prichard, Cae Rhos, a'i fam yn un o deulu cerddorol Llys y Gwynt; wyres i Richard Thomas y telynor. Dyna'r ffeithiau moel.

Does wybod gan bwy, nac ymhle y dysgodd Edward Hughes gynganeddu. Efallai mai gan ei dad, Richard, y dysgodd y grefft. Roedd Richard yn gallu arwyddo ei enw yng Nghofrestr y Plwyf pan briododd ym 1849 (ond nid felly ei wraig, Elisabeth). Mewn adroddiad diweddarach mae'n cael ei ddisgrifio fel *'llenor a cherddor'.* Roedd mam Richard (a nain Edward) wedi ei magu ar aelwyd Llys y Gwynt, *'cartref cân ac awen',* a Richard, y tad, wedi treulio'i blentyndod yn chwarae â *'hen delyn ddrylliedig'* yn y cartref. A thelynorion, wrth gwrs, oedd ei gyndeidiau.

Mae'n ymddangos mai'r englyn oedd prif gyfrwng barddoniaeth Menaifab. Yn *Y Trefnydd*, cyhoeddiad chwarterol cylchdaith Wesleaidd Caernarfon, mae'n cael ei ddisgrifio fel *'bardd da',* ond *'englynwr campus'.* Bu'n enillydd ddwywaith ar yr englyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Yng Nghaernarfon ym 1880, roedd yn fuddugol allan o 100 o gystadleuwyr, ac yn Llanelli, yn gyntaf allan o 148 o gystadleuwyr! Cafodd ei urddo yn Eisteddfod Caernarfon ym 1886. Bu farw'n ŵr gweddol ifanc ym 1902 a'i gladdu ym mynwent Llanddeiniolen.

Roedd cryn dipyn yn anoddach dilyn hynt Richard Hughes, a byddwn yn hynod ddiolchgar os gall unrhyw un ychwanegu at yr ychydig wybodaeth a gribiniwyd o wahanol ffynonellau. Wedi symud i'r Felinheli, mae posibilrwydd iddo enwi ei dŷ yn Aber Cottages yn 'Llys y Gwynt'. Yn y cylchgrawn *Cymru* yn 1921, cyhoeddwyd llythyr a anfonwyd at Richard Hughes, Llys y Gwynt gan y Parchg Edward Stephen (Tanymarian), yn trafod un o'i gyfansoddiadau. Dywedir hefyd mai fel Richard Hughes, Llys y Gwynt y cai ei adnabod gan drigolion Y Felinheli. Anodd datrys ai cyfeirio at enw'r tŷ yn Aber Cottages neu at ei gysylltiadau teuluol yn Seion y cafodd yr enw.

Fe'i disgrifiwyd fel *'llenor a cherddor',* ac ymhlith ei weithiau llenyddol roedd *Colofn y Cerddor* yn *Y Genedl Gymraeg*, dan y ffugenw 'Adrian'. Datgelir hyn yn ei golofn olaf, a gyhoeddwyd wedi ei farw ym 1888.

Wedi symud i'r Felinheli, bu Richard Hughes yn arweinydd y gân yn Elim, Capel y Wesleaid yno. (Yng Nghapel Wesleaid Seion, Llanddeiniolen y'i magwyd.) Dyma, mae'n debyg ei gyfnod cynhyrchiol fel cyfansoddwr, a chyfeirir ato'n aml fel *"awdur 'Calondid'".* Yn y flwyddyn y bu farw, dewiswyd ei dôn 'Calondid' i'w chanu yng Nghyngerdd y Mil Plant – a hynny yn Lerpwl. Hwn oedd un o ddigwyddiadau cerddorol mawr y gymdeithas Gymraeg yn Lerpwl, sef perfformiad gan gôr undebol plant ysgolion Sul Cymraeg Lerpwl a'r cyffiniau; gyda mil o blant yn cymryd rhan. Arferai'r cyngerdd gael ei gynnal ar y Sulgwyn, a hynny yn Neuadd y Philharmonic. Ceir sawl cyfeiriad ato ym mhapurau newydd y cyfnod. Ond ym 1888, cafodd y cyngerdd ei symud. Yn hytrach nag ar y Sulgwyn, cafodd ei gynnal ar ddechrau Hydref, ac nid yn y Philharmonic, ond yn Henglers Circus, Edge Hill. Ac yno y canwyd 'Calondid' gan gôr plant yr Ysgolion Sul. Y flwyddyn ganlynol, 1889, cafodd y dôn ei dewis unwaith eto – y tro hwn i'w chanu yng Nghymanfa Annibynwyr Lerpwl. Dyna'r unig ddau gyfeiriad y gallwn eu darganfod am ganu'r dôn yn gyhoeddus – a'r ddau dro y tu allan i Gymru. Tybed a oedd rhyw gysylltiad rhwng Richard Hughes â Lerpwl? Ond mae'n amlwg ei bod yn dôn adnabyddus iawn – efallai ymhlith y Wesleaid. Ar achlysur marwolaeth Richard Hughes, dywedir ei bod yn dôn boblogaidd iawn *"rhyw 30 mlynedd yn ôl",* sef yn ystod y 1850au. Gŵr ifanc tua 30 oed fyddai Richard Hughes, felly, pan gyfansoddodd y dôn. Ond methiant, hyd yma, fu pob ymgais i gael copi o'r dôn; a hynny er i mi gysylltu â'r Llyfrgell Genedlaethol.

Mae cyfeiriad byr i'w gael am gyfansoddiadau Richard Hughes. Am y dôn 'Calondid', dywedir mai *"Ni phery dim..."* oedd y geiriau a arferid eu canu arni. Oes mwy o wybodaeth am yr emyn hwn? Cyfansoddodd anthem o'r enw 'Warfare' i ganu'r geiriau *"Mae'r Brenin ar y blaen";* ac amryw o'r hyn a elwir yn 'ganigau' addas i'w canu gan *"glee party".*

Pan gladdwyd Richard Hughes ym mynwent Llanddeiniolen canwyd yr emyn angladdol, *"Ni ddaw cyfeillion teg eu gwêdd..."* ar y dôn 'Glanybedd'. Ac ef hefyd a gyfansoddodd y dôn honno.

Byddwn yn ddiolchgar iawn os oes unrhyw un â gwybodaeth am y tad a'r mab o Seion. Cysylltwch hefyd gydag unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco" – anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA, e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com neu ffoniwch 01286 673515.


Fferyllwyr Llŷn
Eich Fferyllydd Lleol | Your Local Pharmacist
Fferyllfa I Ellis Jones, Stryd Fawr, Llanberis
Oriau Agor:
Llun i Gwener: 9 - 6pm
Sadwrn: 9 - 4pm
*ar gau bob dydd rhwng 12.30 a 1pm
01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 746718

# Cyngor Cymuned Llanberis

## COFNODION BYR (HEB EU CADARNHAU) O GYFARFOD NOS FERCHER, 10FED O IONAWR, 2024 YN Y GANOLFAN AM 7.00YH

**Yn bresennol**
Llinos Pritchard (Cadeirydd), Iola Owen, Iwan Harding, Louise Price, Emlyn Baylis, Nia Jones, Kevin Jones, Kim Jones, Rhys ap Gwilym, Helen Sharp, Gwilym Evans, Trystan Thomas
**Ymddiheuriadau**
Neb

**Prif benderfyniadau**
1. Dim Datgan diddordeb
2. Penderfynwyd bod y Clerc yn ymateb i ymgynghoriad y Llywodraeth ynghylch Strategaeth Diogelwch y Ffyrdd.
3. Penderfynwyd bod y Cyngor am fabwysiadau tri Phwyllgor: Pwyllgor Rheoli (yn cynnwys Cyllid, Polisïau, Gweinyddu); Pwyllgor Asedau (yn cynnwys Mynwent, Cae Chwarae, Cae Bob Tywydd, Parc Bach a Fron Deg a Llwybrau); Pwyllgor Gweithgareddau Cymunedol (yn cynnwys Ffair Nadolig, Prosiectau). Penderfynwyd hefyd ar gylch gorchwyl y pwyllgorau.
4. Archwiliad mewnol ar Lywodraethu y Cyngor wedi ei wneud: ychydig o faterion angen ymdrin â hwy; y Clerc i flaenoriaethu'r materion a gweithredu arnynt.
5. Sedd wag. Neb wedi gwneud cais am etholiad. Symud ymlaen i hysbysebu: bydd y Cyngor yn cyfethol aelod newydd.
6. Derbyniwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Rhagfyr 2023.
7. Cadarnhau cofnodion mis Rhagfyr.
8. Symud ymlaen i ymateb i lythyr Grŵp Datblygu Llanberis i gyfarfod ar y cyd. Y Clerc i sefydlu cyfarfod ar y cyd a gwahodd Menter Stiniog a Phartneriaeth Ogwen er mwyn ystyried sut gall y Cyngor a'r Grŵp weithio mewn partneriaeth.
9. Cyfarfod arbennig wedi ei drefnu ar gyfer cyflwyniad ar Ganolfan Symudedd Llanberis ar gyfer y Dyfodol. Y Grŵp Datblygu a'r Ganolfan wedi eu gwahodd hefyd.
10. Y Cyngor yn derbyn ffurflenni cais am gymorth ariannol gan elusennau, grwpiau a chymdeithasau o fewn y Gymuned.
11. Cyfarfod misol nesaf: 14 Chwefror 2024

**SEDD WAG – CYNGOR CYMUNED LLANBERIS**
Derbynir ceisiadau ysgrifenedig gan bersonau cymwys i'w cyfethol fel aelod o Gyngor Cymuned Llanberis.
Dyddiad Cau: 7fed o Chwefror, 2024.

Croeso i unigolion gysylltu â'r Clerc am fwy o fanylion.

Ceisiadau i'w hanfon at Glerc y Cyngor: Heather Jones 3 Maes Padarn, Llanberis LL55 4TE; clerc@cyngorllanberis.cymru: 07867 982518









# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## CRYNODEB O GOFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN, 5ED RHAGFYR, 2023

**1. Cofnodion 7fed Tachwedd 2023**
Cafwyd y Cofnodion yn gywir: Elwyn Jones (1), Phyllis Ellis (2)

**2. Materion o'r Cofnodion**
**Cysgodfa yn Rhiwlas:** Cafwyd cadarnhad nad oes angen caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, mae yna ganllawiau ar osod, ac ar y math o gysgodfan sy'n cael ei chaniatáu. Cytunwyd i'r Clerc drafod ymhellach yn y flwyddyn newydd gyda'r arbenigwr yng Nghyngor Gwynedd er mwyn symud ymlaen i gael cysgodfan yn y flwyddyn ariannol newydd ym mis Ebrill.
**Twll ar y lôn A4244 ger Tŷ Mawr Cottages:** Derbyniwyd cadarnhad fod yr arolygwr ffyrdd yn ymweld â'r safle ar y 15fed o Dachwedd, gan obeithio bydd y twll yn cael ei lenwi yn fuan ar ôl hyn.

**3. Cynllunio**
Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:
***C23/0911/18/YA – Fferm Tan y Weirglodd, Bro Rhiwen, Rhiwlas***
*Cais hysbysiad ymlaen llaw ar gyfer codi adeilad amaethyddol ar gyfer storio peiriannau a phorthiant anifeiliaid. – Dim Gwrthwynebiad.*
***C23/0809/18/AC – Bryn Seiont, Fachwen***
*Cais i gynyddu maint estyniad a ganiatawyd o dan gais gwreiddiol, a gosod system gwresogi adnewyddadwy - Nid oes dim sylwadau wedi eu derbyn*
***C23/0939/18/TR – Tyddyn Berth, Bethel***

Cais i uwchraddio tri cham o ran o'r rhwydwaith presennol. - Dim Gwrthwynebiad

**4. O Gwmpas y Bwrdd**
**Rhiwlas**
Gofynnodd Elwyn Jones, os oes posib edrych ar noddi Clwb Ieuenctid yn Rhiwlas y flwyddyn nesaf. Rydym wedi cytuno yn y dechrau y byddwn yn gefnogol, os oes digon o ddiddordeb. Mae yna glwb pop up wedi bod yn arbrofi yn barod, ac felly mae'n edrych fel y bydd Clwb yn cychwyn fis Medi 2024.

**Brynrefail**
Mae bwriad i roi llinellau melyn i atal parcio ar sawl cyffordd ym Mhen Llyn. Bydd hyn yn creu ardal fwy diogel i gerddwyr, ac yn hwyluso trafnidiaeth. Mae yna ofyn hefyd am ail edrych ar system un ffordd drwy'r pentref, oherwydd parcio a diogelwch.

# Cyngor Cymuned Llanrug

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG 20FED TACHWEDD, 2023

1. **Derbyn croeso gan y Cadeirydd**
Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd am bresenoldeb pawb.

2. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 17eg Hydref 2023**
Cadarnhawyd cofnodion mis Hydref ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. **Unrhyw fater yn Codi o Gofnodion Cyfarfod 17 HYDREF 2023.**
**Cyflwr y wal ger Ysgol Brynrefail**.
Cadarnhaodd y cynghorydd Beca Brown ei bod wedi bod mewn cysylltiad â Chyngor Gwynedd sawl gwaith ond hyd yma ddim wedi derbyn diweddariad.
**Penderfyniad:** Derbyn a diolch am y diweddariad.

4. **Derbyn Adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

1) Fe aethpwyd drwy'r gyllideb a gwariant ac fe'i haddaswyd yn briodol yn nhyb y pwyllgor ond bydd angen edrych ar y gyllideb eto ar ol y Nadolig oherwydd y bydd yn amser i gyflwyno ein praesept ar gyfer 2024/2025.
2) Penderfynodd y pwyllgor gymeradwyo gwariant o £7k ar gyfer rhoi llawr pwrpasol ar y gampfa yng Nghwm y Glo. Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r gwariant.
3) Adroddwyd fod angen edrych ar y rheoliadau ariannol sydd ddim wedi newid ers peth amser bellach a bod angen eu hadnewyddu yn sgil newidiadau mewn trefniadau bancio a gwariant.
4) Adroddwyd fod angen wneud archwiliad o ba wybodaeth sydd ar ein gwefan a bod angen tynnu rhai pethau i ffwrdd ac ychwanegu materion eraill.
5) Bu trafodaeth am gostau'r clwb ieuenctid ond adroddwyd fod arian ar gyfer costau'r clwb yn y gyllideb eisoes.
6) Nodwyd fod y cyngor eisoes wedi mabwysiadu polisi grant disgresiwn ond hyd yma nid oedd wedi ei hysbysu. Awgrymwyd y byddai yn bosib hysbysebu'r cynllun nawr o flaen y gaeaf.

**Penderfynwyd**:
a) Derbyn a diolch am yr adroddiad.
b) Cymeradwyo'r gwariant ar y gampfa allanol, Cwm y Glo.
c) Y Clerc i ddrafftio polisi i adlewyrchu trefniadau ariannol ac yna ei wirio gyda Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y pwyllgor.
ch) Y Clerc, gyda'r Cadeirydd ac Is-Gadeirydd i fynd drwy'r wefan.
d) Cytunwyd i hysbysebu'r polisi.
Derbyniwyd a diolchwyd am yr adroddiad.

5. **Derbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**
Nodwyd:
a) Dim dyddiadau casglu sbwriel ar hyn o bryd ond i ail gychwyn ym mis Mawrth ac edrych ar newid y trefniadau.
b) Rhoi manylion a gwybodaeth am y dyddiadau casglu sbwriel yn y newyddlen.
c) Fod rota ar gyfer archwilio'r gampfa wedi ei wneud.
d) Caeau Chwarae- adroddwyd fod ein contractwr yn parhau i wneud y gwaith ar y caeau chwarae ac wedi casglu sawl bag o sbwriel oddi ar gae Nant y Glyn, yn cynnwys poteli wedi torri.
e) Eisoes wedi trafod llawr y gampfa ac i symud ymlaen a'r gwaith.
f) Wedi cyfarfod a theulu'r diweddar Charles Jones a Brian Jones a'r teuluoedd yn hynod o ddiolchgar am i'r cyngor ddarparu'r coed er cof amdanynt.
g) Coed Nadolig wedi eu harchebu a bydd Cyngor Gwynedd yn eu gosod a hefyd yn gwneud y gwaith trydan.
h) Cystadleuaeth Nadolig 2023- Cystadleuaeth ar agor rhwng 1af a'r 10ed o Ragfyr gyda beirniadu ar wythnos 11 o Ragfyr.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

6. **Derbyn Adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**
**Trafodwyd/ Penderfyniadau.**
*Ysgrifennu a chyhoeddi FAQs ynglyn a thorri gwair i'w roi ar safle we'r cyngor erbyn cyfarfod y Cyngor llawn mis Ionawr 2024.
*Gweithredoedd gwyrdd:parhau gydag archwilio i mewn i bwrcasu bin brown i'r fynwent a chamau i hyrwyddo defnydd o flodau di-blasdig, cynaliadwy. Angen penderfynu wedyn ar polisi Gwyrdd annibynnol i'r Fynwent.
*Gweithredoedd tymor byr- glanhau llwybrau, cyhoeddi rheolau ynglyn a thorchau adeg Nadolig.
*Cynllunio tymor hir- angen amcangyfrif o gostau gwaith ar y waliau a'r ffensys yn y fynwent a chreu gofod trwy leihau'r maes parcio.
*Asesiadau risg- dyddiad cyn 31/3/24 a rhybydd o flaen llaw.
*Cyfarfod cyswllt gyda'r contractwr torri gwair i drafod cwyn am y toriadau gwair yn y fynwent a gymrodd le ym mis Medi.- trafodwyd dulliau a chostau torri gwair, toriad ychwanegol ym mis Tachwedd, gwaith llwybrau. Gwybodaeth nawr ar gael i ymateb i gwynion.
*Cyfarfod nesaf yr is-bwyllgor, 8/1/24 am 6.30 y.h. ar lein: prif eitem fydd blaenoriaethau 24/25.
**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

7. **DerbynAadroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Bwyd a Llesiant**.
Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones
*Eu bod wedi gallu rhannu a dosbarthu 3 bocs o lyfrau ar gyfer oedolion a phlant a oedd yn derbyn pecynnau bwyd.
*Y bydd ffurflenni grant disgresiwn yn cael eu rhannu i bawb nos Wener nesaf.
*Fod y cyngor wedi derbyn y grant uchafswm o £3,000 ar gyfer y cynllun bwyd.
*Bydd nodyn yn mynd gyda dosbarthiadau bwyd yn hysbysebu na fydd wyau i'w cael am wythnos.
**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

8. **Derbyn Adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug.**
Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts
*Fod arolygwyr Estyn yn ymweld a'r ysgol rhwng 20-24 Tachwedd.
*Y Llywodraethwyr wedi cael y cyfle y gyfrannu at y broses trwy lenwi holiadur ar lein wythnos cyn yr ymweliad.
*Bydd adborth answyddogol i'r staff ar ddiwedd yr ymweliad a chyhoeddir yr adroddiad swyddogol ar safle we Estyn ym mis Chwefror 2024.
**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

9. **Derbyn Adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Chwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**
**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

10. **Cais am Gyfraniad Ariannol- Llewod Llanrug**
Penderfynwyd:Cyfrannu £800 tuag at Llewod Llanrug.

11. **Derbyn diweddariad ar sefyllfa Ty'r ysgol, Llanrug yn dilyn penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod 17eg Hydref 2023 ac i geisio barn am gynnal Cyfarfod Cyhoeddus**
Adroddwyd fod cais wedi dod i law i gynnal cyfarfod cyhoeddus.
Adroddwyd fod tua 1,000 o enwau bellach ar y ddeiseb ac nid yw'n bosib cael dim adborth oddi wrth Gyngor Gwynedd. Roedd aelod o'r cyhoedd am wybod sut i gyflwyno deiseb at Gyngor Gwynedd ac fe roddwyd cyngor ar sut i wneud hyn.
**Penderfynwyd**:
a) Peidio cynnal cyfarfod cyhoeddus ar hyn o bryd ac aros i weld yr ymateb i'r ddeiseb.
b) Cadarnhaodd y Cynghorydd Beca Brown fod y cynllun ar ddal ar hyn o bryd.


SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

# Garddio

## CHWEFROR

Mae'r gwanwyn ar ei ffordd - wir yr!. Mentrodd un eirlys ddewr allan yn fy ngardd ar y 5ed Ionawr. Roedd hyn bron yn fis yn gynharach na'r llynedd.



Ar y llaw arall er bod y tŷ'n edrach yn ddigon llwm a noeth ar ôl tynnu'r addurniadau Nadolig a'r goeden, mae'r cactws Nadolig yma'n dal mewn blodau ddiwedd Ionawr, gan obeithio y bydd yn dal i oleuo'r gornel yma o'r parlwr hyd at fis Chwefror. Dyma'r fam wreiddiol, mae dau arall o'i phlant wedi bod yn llawn blodau dros yr Ŵyl. Mi ydw i hefyd wedi prynu dau arall - un efo blodau gwyn a'r llall efo blodau coch… y gobaith yw y byddan nhw hefyd yn tyfu'n fawr ac y bydd eu babis hwythau yn blodeuo cystal â hon.

Mae'r cactws Nadolig (schlumbergera) yn un hynod o hawdd i'w tyfu o doriadau? Tynnwch un neu ddau ddarn o goes y cactws gan ei droi a'i dynnu yn ofalus. Plannwch nhw at eu hanner (gyda'r ymylon pigfain yn wynebu at i fyny) mewn pot o gompost graeanog. Dyfriwch yn gynnil a'u cadw'n eithaf cynnes ar tua 20C (68 F) ond heb fod yn wyneb yr haul. Os ydynt wedi gwreiddio ymhen rhyw fis neu ddau gallwch eu symud i botiau unigol i dyfu ymlaen. Maent yn byw am flynyddoedd yn y tŷ ac yn hoffi bod allan, mewn man cysgodol, dros fisoedd cynhesach yr haf.

Fel arfer yn ystod mis Chwefror gobeithiwn ganfod arwyddion fod y gwanwyn ar ei ffordd, un o'r rhain yw'r cynffonnau ŵyn bach sydd i'w gweld ar waelod allt Nant Garth ers dechrau'r flwyddyn. Fodd bynnag wrth deipio hwn, mae'r Wyddfa yn wynnach nag oedd hi ddoe ac mae hi wedi bod yn pluo eira bob yn ail a pheidio, er nad ydy o'n 'sticio' ar hyn o bryd. Diolch byth mod i wedi cofio cael bag o halen i gadw'r llwybrau'n glir! Wrth frysio allan i fwydo'r adar neu nôl rhywbeth o'r cwt mae'n hawdd iawn cael codwm os ydy wedi rhewi.

Mae pigau dail rhai o'r bylbiau blodau wedi gwthio eu ffordd allan o'r pridd, gan ymateb i



lefelau uwch o oleuni wrth i'r dydd ymestyn. Mae'r garlleg, blannais i llynedd, wedi torri drwy'r pridd yn barod ac mi ydw i'n edrach ymlaen at eu cynaeafu yn ystod yr haf. Yn ôl y gwybodusion mae garlleg angen cyfnod o oerni i egino, maent wedi cael dipyn o hwnnw'n ddiweddar.

Mae'r rhew a'r tywydd garw wedi bod yn brysur yn malu un o fy mhotiau pridd. Felly bydd rhaid trio dod o hyd i un tua'r un maint, gan fy mod yn meddwl bod yr un yma'n llawn bylbiau'r gwanwyn. Esgus da i fynd am dro i wario fy nhalebau gefais yn anrhegion Nadolig, yn y ganolfan arddio leol!



Cofiwch gadw bocsys wyau, yn barod ar gyfer gosod tatw cynnar ynddyn nhw i egino cyn eu plannu.

**Tasgau:**
Mae digonedd i'w wneud dan do, diolch byth! Cynllunio ar gyfer y tymor sydd i ddod ac mi ydw i eisoes wedi prynu ambell i baced o hadau i ddechrau planhigion bach fy hun. O edrych ar y dyddiadur garddio llynedd, dwi'n mynd i ddal arni gyhyd ag y medrai.

1. Mae ambell i blanhigyn angen cyfnod go hir os ydach chi am gael cynhaeaf da. *Chillies* yw un o'r rheiny. Mae'r hadau angen gwres i egino felly gorau oll os oes ganddo'ch mat cynnes neu '*propogator*'. Fel arall gosodwch focs hadau llawn compost ar silff ffenest uwchben gwresogydd. Taenwch yr hadau yn denau ar yr arwyneb a'u gorchuddio gyda haen denau o '*vermiculite*' neu gompost a dyfriwch yn dda (y ffordd orau yw trochi'r bocs hadau mewn cynhwysydd llawn dŵr). Amynedd wedyn. Gall yr hadau gymryd tair wythnos i egino. Symudwch y planhigion bach unigol i botiau neu blygiau bach unwaith ddaw'r ail bâr o ddail i'r golwg. Rhowch mewn potiau mwy wrth iddynt dyfu nes byddant tua 25cm ac yn barod i fynd i'w gwely neu gynhwysydd terfynol. Gallwch eu tyfu tu allan mewn man heulog (dim yma!) ond cewch mwy o lwyddiant mewn tŷ gwydr, 'porch' neu 'polytunnel'. Cewch mwy o gyfarwyddiadau ar sut i'w tyfu yn un o'r rhifynnau nesaf.
2. Y tu allan, gallwch docio unrhyw lwyni sydd wedi blodeuo dros y gaeaf yn ogystal â'r coed rhosod a'r *buddleia davidii*
3. Os ydy'r pridd yn weddol sych, a heb rewi, paratowch wely ar gyfer rhai llysiau a dechreuwch chwynnu cyn i'r chwyn bach dyfu'n rhai mawr!
4. Os nad ydach chi wedi plannu garlleg, gallwch fynd ati i'w plannu yn awr. Cofiwch ychwanegu compost da i'r pridd, neu plannwch rhai mewn cynhwysydd sydd o leiaf 25cm o ddyfnder ac yn caniatáu gofod o tua 15cm rhwng pob gewyn (*clove*). Rhannwch y bwlb a dewiswch y rhai mwyaf i'w plannu. Defnyddiwch *dibber* neu driwal (*trowel*) i wneud twll a'u plannu tua 5cm i lawr mewn rhesi neu grid. Dyfriwch nhw'n dda. Cadwch lygaid arnynt gan chwynnu a dyfrio fel bo'r angen. Torrwch unrhyw bennau blodau sy'n ffurfio, gallwch eu coginio a'u bwyta. Dylech fedru eu cynaeafu rhwng canol mis Mehefin a mis Gorffennaf (neu'n hwyrach os ydach chi'n byw yn nhopiau Eryri fel fi). Peidiwch â'u halio i fyny gerfydd y dail, rhowch fforch o danyn nhw a glanhewch unrhyw bridd oddi arnynt, ond peidiwch â thynnu'r dail na'r gwreiddiau. Rhowch nhw i sychu am tua phythefnos, mewn lle nad yw'n llygaid yr haul. Ar ôl tua phythefnos mi ddylen nhw fod wedi sychu a gallwch eu cadw mewn sied neu gwt tu allan tan yr haf wedyn.
5. O ganol mis Chwefror ymlaen gallwch osod eich tatws hadyd i egino ar focsys wyau gwag mewn rhywle golau ac oer (yn y llofft sbâr mae'r rhai acw'n mynd). Dewiswch datws o faint wyau gan gofio eu gosod yn y bocsys a'u llygaid ar i fyny. Pan fydd yr egin wedi cyrraedd ryw gentimedr i gentimedr a hanner maent yn barod i'w plannu, fel arfer erbyn canol mis Mawrth. Mi ydw i am ddal ati efo'r '*Pink Fir Apple*' eto eleni, gan fy mod wedi tyfu rhai ers rhai blynyddoedd bellach ac yn cadw tatws hadyd fy hun. Fel arall dwi am drio'r '*Duke of York*' neu'r *Purple Duke of York* eleni fel tatws cynnar. Aiff rhai i bot mawr yn y tŷ gwydr (i gael rhai cynnar cynharach) a'r gweddill i'r ddaear. Byddant yn barod, a llawer mwy blasus na'r rhai fydd yn y siopau, erbyn mis Mehefin neu Orffennaf.
6. Cychwynnwch dyfu'r cloron (*tubers)* dahlia mewn tŷ gwydr efo gwres.)
7. Gosodwch neu adnewyddwch rwydi ar y llysiau a'r ffrwythau os ydy'r adar neu gath drws nesaf, neu eich cath eich hun, yn boen.
8. Rhannwch fylbiau eirlysiau a phlannwch nhw mewn cysgod rhannol, tra bod y gwyrddni yn dal arnyn nhw.

8\. Golchwch eich potiau a phlanwyr hadau, os nad ydach chi eisoes wedi gwneud hynny. Am unwaith mi ydw i wedi gwneud hyn yn ystod y tymor garddio llynedd.

**Rhosyn Mynydd**

# Ar ben arall i’r lein



Dyma ni unwaith eto ar drothwy tymor arall, yn anffodus does dim llawer o frwdfrydedd i’w deimlo o gwmpas yr hen le ’ma. Mae nifer wedi cael eu siomi gan sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdrin â sefyllfa’r eog a’r brithyll môr.

Does ond rhyw dair blynedd ers iddynt ddod a rheolau llym yn ymwneud â physgota’r eog, yn eu mysg mae cymal fod stocio cywion eog i’n dyfroedd i ddod i ben. Deorfeydd yn cael eu cau ar draul glynu at genhedlu naturiol ac yn sgil hyn mi fydd pethau yn gwella. Pwy sy’n coelio ‘rwdlan fel yna o gwmpas fan yma tybed? Pan mae milltiroedd o’n dyfroedd naturiol wedi eu colli drwy adeiladu gorsaf Dinorwig, Llyn Peris i’w un golled fawr, ac rwyf wedi pregethu a chyfeirio at lefydd fel Afonydd Dadeni, Peris, Ceriach ac ati o’r blaen. Drwy symud ymlaen i ganlyniadau’r holl reolau newydd, yn ystod 2023 daeth datganiad gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fod pob afon yng Nghymru mewn perygl o golli ei stoc eog oherwydd llu o broblemau sydd ddim yn cael ei datgelu.

Nid yn unig sefyllfa’r eog sy’n bryder ond hefyd mae’r corff yn datgan fod pob afon yn ein gwlad yn yr un sefyllfa o golli ei gwyniaid. Ond chware teg iddynt, maent yn dweud fod un afon yn parhau gyda’r stoc gwyniaid yn disgleirio ac yn cynyddu, pa afon meddech chwi - wel y Seiont/Rythallt siŵr iawn. Be rydym yn wneud yma i droi trol yr awdurdodau? Mae’n ddigon syml ac fe fydd eglurhad yn dod yn y misoedd nesaf.

Mae’r prawf yn y pwdin medden nhw, gan fod gwyniedyn 12.5 pwys wedi ei fachu ar y Seiont yn 2023 gan aelod ifanc, Adam Burton o Gaernarfon. Daeth tarian Vyrnwy Evans i’w ffordd am y gwyniedyn mwyaf o ddyfroedd y clwb yn ystod y flwyddyn. Gyda’r darian daw casgliad o blu wedi eu clymu gan Bill Walker o Gresffordd.

Gan fy mod yn cyfeirio at y tlysau – mi aeth Tlws Tomi Lovell i Gareth Davies, Bethesda, tlws sy’n gyflwynedig i aelod sydd wedi cyfrannu’n enfawr at waith y gymdeithas yn ystod 2023. Dyma’r tro cyntaf iddo fynd allan o’r fro. Yn ogystal, i roi tipyn mwy o siom i ddatganiadau CNC fe aeth tarian W. J. Williams am yr eog trymaf i Josh Jones, Caernarfon, pysgodyn hyfryd am 13.5 pwys.



Dr Robin Parry yn cyflwyno i Adam Burton

Oes mae gwaith crafu pen hefo’r holl bethau sy’n mynd ymlaen ac yn ymwneud â’n dyfroedd lleol; a dweud y gwir tydi hyn ddim yn croesi meddwl llawer i un gan na’r unig ffocws yw’r ’sgota a sut aiff pethau yn y tymor o’n blaenau. Bydd yr afonydd yn agor ar 3ydd Mawrth, a’r llefydd i drio fydd i lawr y Finiog, Glan Gwna a Stablau, cofiwch roi tro arni ar yr amser cynhesaf o’r diwrnod, o tua chanol dydd am ryw ddwy awr, a chofiwch yr hen ffefryn ‘Llwyd Corff Main’. Dyma be fyddai’r hen griw yn fy nghynghori i roi ar y blaen llinyn, a chan fy mod i erbyn heddiw yn un o’r hen griw dyma fy nghyngor i chwi hefyd – da de. Dyma un arall a ddywedodd un o’r hen gynghorion sef Alwyn ‘Barbar’ Williams, Llanrug wrthyf amser maith yn ôl, cofia drio ‘Corff Melyn Budur’. Roeddwn yn un o’r rhai breintiedig gan fyddwn yn cael i fynd i’r offis glymu i weld y gwrthrychau yn cael eu cawio. Dyma’r gyfrinach gyda’r melyn budur meddai,



“Mae gen i hen got *army*, a dwi’n tynnu tipyn o’r defnydd a’i redeg ar y bachyn i wneud y corff”.

Faint goblyn oedd y got ’na tybed?

Yn dilyn agor ein hafonydd, yn sydyn iawn wedyn fe ddaw yn 20fed Mawrth a drysau’r llynnoedd yn ein croesawu. Padarn yw’r llyn cyntaf i ’sgota’n dda, a’r lle am dorgoch cynnar gyda’r cynrhon o ochr rheilffordd y llyn, a rhyw 200 i fyny’r llyn o Graig y Fulfran. Sut aiff pethau ar Padarn eleni yw’r cwestiwn, gan fod gwaith i fod i’w ddechrau rhyw bryd ar wahardd pawb o lannau ochr y rheilffordd er mwyn codi’r lein er mwyn gosod gwifrau tanddaearol o orsaf Dinorwig. Fel perchenogion cawsom yr wybodaeth beth amser yn ôl mai 2024 fuasai’r flwyddyn, ond ni fuaswn yn synnu y bydd hi’n 2025 ar y gwaith yn dechrau, ond cawn weld ynde.

Mater arall sy’n berthnasol i Lyn Padarn yw’r chwyn ymledol sydd nawr fel pla o gwmpas y lle. Cawn weld sut aiff pethau eleni, ond o weld maint yr ymlediad dros y tri mis diwethaf rhaid codi cwestiwn a fydd yn bosib pysgota’r glannau o hyn ymlaen? Y siom fawr yw nad oes ’run o’r awdurdodau i weld ar unrhyw frys i ymafael a’r broblem. Rhai syniadau ganddynt yw anfon deifars i lawr i’w dorri(!!) neu orchuddio gwely’r llyn â matiau ‘jute’. Mae dros flwyddyn wedi mynd er i’r gymdeithas godi sylw at be oedd yn datblygu, a dim wedi digwydd. Oes rhywun yn goruchwylio’r criw yma tybed? Yn y cyfamser mae wedi ymledu nawr i rai o lynnoedd Parc Eryri.



Alwyn wrth ei fainc glymu



Chwyn Padarn a’r glannau ym mhentref Llanberis

Be sy’n gyfrifol am yr ymledu? Mae’n amlwg i ni fel pysgotwyr a pherchenogion fod ddim un o’r awdurdodau eisiau wynebu’r ffaith fod yr holl gynnydd mewn chwaraeon dŵr yn rhan fawr o’r broblem, cychod, canŵs, hwyl fyrddau, nofio. Cannoedd ar gannoedd ohonynt ar Padarn pob blwyddyn, yna ffwrdd a nhw i Lyn Tegid a llynnoedd eraill yn y Parc, a neb yn meiddio barnu. Mae’r allor o ddefnydd o’r ‘awyr agored’ yn bwysicach na dim. Y gwirionedd yw wrth gwrs os bydd hyn yn parhau mi fydd yn berygl neu’n amhosib defnyddio’n dyfroedd. Does ond eisiau edrych ar be sy’n digwydd yn ardal y llynnoedd a’r Iwerddon. Rwy’n cydnabod fy mod fel tiwn gron ar hyn, ond fel yna mae hi, a chawn weld be a ddaw ynde.

Tiwn gron neu beidio, y diwrnod mae pawb yn deheu amdano yw 1af Ebrill, pan fydd Llyn Dywarchen yn ein croesawu. ’Sgota da ynde. Trefniadau eleni fydd stocio’n fisol i fyny ac yn cynnwys Medi, gyda’r stoc yn dod o ddeorfeydd Trawsfynydd a Crawia. Diolch arbennig i’r criw bach sydd wrthi’n rhedeg y lle, ac i Alan am yr archebu. Diolch hefyd i’r criw brwdfrydig sy’n gwlychu pluen yna, a’r pysgod arbennig sy’n dod i’r rhwyd, dyma sy’n denu ’sgotwyr o bob cornel o’r wlad.

Mae teimlad y dylid deffro i rai o dlysau’r clwb sydd ddim wedi eu defnyddio ers peth amser ac yn gorwedd i’w edmygu yn unig yn y cwpwrdd tlysau ym Melin y Cim. Yno mae cwpan a gyflwynwyd i’r Gymdeithas flynyddoedd yn ôl gan John Jones, Waunfawr, a oedd yn rheolwr cymdeithas adeiladu’r C&G yng Nghaernarfon, fel ‘Cwpan C&G Llyn y Dywarchen’. Mi fyddwn yn ei chyflwyno unwaith eto ar ddiwedd y tymor. Felly cofiwch gadw cofnod o bwysau eich pysgodyn nodweddiadol. Efallai daw’r gwpan eich ffordd ac efallai rhywbeth bach arall!! **Huw Price Hughes**

# £2,000 i fanciau bwyd lleol – yn cynnwys Cwm-y-glo a Llanrug







Ym mis Rhagfyr, lansiwyd apêl Nadolig gan y gwleidyddion lleol Siân Gwenllian AS a Hywel Williams AS, a hynny er mwyn rhoi hwb i gronfeydd 8 banc bwyd lleol gan gynnwys Cynllun Bwyd Cwm-y-glo a Llanrug. Daeth yr apêl i ben ddechrau Ionawr ar ôl rhagori ar y targed gwreiddiol o £750 i godi £2,050.

Lansiwyd yr apêl rai misoedd ar ôl i Hywel Williams AS gyhoeddi adroddiad yn bwrw golwg ar dlodi yn Arfon. Comisiynwyd Sefydliad Bevan i archwilio sefyllfa tlodi yn yr etholaeth ac i ddod o hyd i ddatrysiadau. Nododd yr adroddiad fod materion penodol yn effeithio ar yr ardal, gan gynnwys tâl isel a chyflogaeth ansicr, yn ogystal â chostau tai, ynni a theithio uchel.

Codwyd yr arian yn sgil adroddiadau gan Fanc Bwyd Coed Mawr yn yr etholaeth fod mwy a mwy o deuluoedd lleol yn dibynnu ar wasanaethau'r banciau bwyd, yn ogystal ag adroddiad gan y Trussel Trust fod cynnydd o 16% yn y defnydd o fanciau bwyd yn 2023.

Mae Siân Gwenllian AS yn cynrychioli'r ardal yn Senedd Cymru. Yn ôl Siân:

"Unwaith eto eleni rydym wedi rhagori ar ein targed gwreiddiol, diolch i haelioni pobl leol.

"Mae diffyg mynediad at fwyd yn arwydd clir nad ydi cymdeithas yn gweithio i bawb.

"Dyna pam rydw i'n falch o fod yn aelod o blaid sydd, trwy ein Cytundeb Cydweithio arloesol gyda Llywodraeth Cymru, yn cyflwyno prydau ysgol am ddim.

"Bydd pob plentyn ysgol gynradd, a mwy na 6,000 o ddisgyblion oed meithrin yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim erbyn mis Medi eleni.

"Rhan bwysig arall o'r Cytundeb yw'r Strategaeth Fwyd Gymunedol a fydd yn annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd yn lleol yng Nghymru, a'r gobaith yw y bydd yn arwain at ostyngiad mewn gwastraff bwyd. Gallai cynllun o'r fath adeiladu ar gryfder prosiectau bwyd cymunedol yng Ngwynedd sy'n mynd i'r afael â bwyd dros ben o archfarchnadoedd.

"Hoffwn ddiolch i bawb am eu cyfraniadau hael."

Ychwanegodd Hywel Williams, cynrychiolydd yr ardal yn San Steffan:

"Rydan ni'n gweld mwy a mwy o deuluoedd yn gorfod troi at fanciau bwyd lleol am gymorth oherwydd y cynnydd mewn costau byw. Mae costau cynyddol bwyd a thanwydd yn effeithio ar bawb, ond i deuluoedd sydd ar yr incwm isaf mae'r argyfwng hwn gymaint yn waeth.

"Rydan ni'n ffodus bod yn Arfon gymaint o bobl dosturiol a ddaeth i'r adwy yn ein hapêl Nadolig. Diolch i bawb a gyfrannodd."

Y prosiectau bwyd fydd yn elwa o'r ymgyrch fydd Banc Bwyd Arfon, Banc Bwyd Coed Mawr, Bwyd i Bawb Bangor, Cynllun Bwyd Yr Orsaf ym Mhenygroes, Porthi Dre yng Nghaernarfon, Pantri Pesda, Cynllun Bwyd Cwm-y-glo a Llanrug a Banc Bwyd Cadeirlan Bangor.

**Gwaith Coffaol LLANRUG**

Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA

☎ 01286 672898



**ECO'r Wyddfa**

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
MCEA

Mark Davies 07447804110
mark@mdcaravans.cymru
Tregarth, Gwynedd

Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS

**DYLAN GRIFFITH**

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*

TROS Y WAEN PENISARWAEN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol

*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*



# Record Llanrug

Ar benwythnos cyntaf 2023 y collodd Ail Dîm Llanrug o dair gôl yn erbyn tim Bow o'r Rhyl. Am weddill y flwyddyn ni chollwyd unrhyw gêm – yn y gynghrair na'r cwpan. Ar ddechrau'r tymor presennol rhannwyd cynghrair yr ail dimau i ddwy adran – dwyrain a gorllewin. Cafodd y ddwy gynghrair newydd eu galw yn 'gynghreiriau datblygu' yn cynnwys amodau ynglŷn â gorfod cynnwys chwaraewyr o dan 21 oed. Mae ail dîm Llanrug wedi manteisio ar y newidiadau hyn, ac yn cynnwys nifer helaeth o chwaraewyr ifanc yn eu carfan, a'r mwyafrif ohonynt yn fechgyn Llanrug.

Ar benwythnos cyntaf 2024 roedd y tîm i fod i chwarae yn erbyn ail dîm Bontnewydd oddi cartref, ond oherwydd y tywydd cafodd y gêm ei gohirio. Roedd hynny'n golygu fod y tîm wedi mynd am flwyddyn gyfan heb golli gêm – record arbennig.

Ar hyn o bryd (a heb gynnwys canlyniad y gêm a chwaraewyd ar y penwythnos yr anfonwyd newyddion i'r rhifyn hwn o'r *Eco*) mae'r tîm ar frig y gynghrair, ac wedi ennill pob gêm ond un, a'r llall yn gyfartal. Mae'r rhagolygon yn awgrymu'n gryf mai'r tîm hwn fydd pencampwyr y gynghrair eleni.

Llongyfarchiadau i holl chwaraewyr y garfan ac i'w hyfforddwyr.









# Dal i redeg....



## Ras Llyn Llydaw

Daeth criw da i Ben Gorffwysfa ar fore cyntaf y flwyddyn newydd i herio'r tywydd a rhedeg o amgylch Llyn Llydaw. Nid oedd pawb yn cychwyn gyda'i gilydd, ond yn cael eu hamseru, yn ddibynnol ar pa bryd yr oeddent yn cyrraedd y man cychwyn rywdro rhwng hanner awr wedi naw ac unarddeg y bore! 'Ras' go wahanol felly. Yr enillydd gyda'r amser cyflymaf oedd Neil Hockley o Lanberis.

**Pencampwriaethau Rhedeg Mynydd**

Mae Cymdeithas Rhedwyr Mynydd Cymru wedi cyhoeddi pa rasys fydd yn cael eu cyfrif yn rhan o'u pencampwriaethau am eleni. Bydd Pencampwriaeth Gogledd Cymru yn cynnwys y rhai canlynol: Tarren Hendre (27ain Ionawr), Mynydd y Cilgwyn (9fed Ebrill), Llangollen (14eg Ebrill, Moel Eilio (4ydd Mai), Moel y Gamelin (23ain Mehefin), Cnicht (25ain Awst) a Phedol Peris (21ain Medi).

Bydd angen teithio ymhellach i gystadlu ym Mhencampwriaeth Cymru, a dyma'r rasys fydd yn cyfri: Tarren Hendre, Tor y Foel (17eg Mawrth), Moel Eilio, Preseli (11eg Mai), Y Bannau (13eg Gorffennaf), Cnicht a Phedol Peris.

Roedd disgwyl i Glwb Rhedwyr Eryri gyhoeddi eu rasys pencampwriaeth yn ystod mis Ionawr.





# 2023 mewn Chwaraeon



**Cyn i 2023 droi yn hen hanes, beth am edrych yn ôl ar rai o ddigwyddiadau chwaraeon y flwyddyn a aeth heibio.**

### IONAWR
- Michael Smith yn ennill Pencampwriaeth Dartiau'r Byd
- Judd Trump yn ennill Meistri'r Snwcer
- Novak Djokovic ac Aryna Sabalenka yn ennill yr Australian Open.

### CHWEFROR
- Kansas City Chiefs yn ennill y Superbowl.

### MAWRTH
- Iwerddon yn ennill y Chwe Gwlad
- TNS yn ennill y Cymru Premier.

### EBRILL
- Jon Rahm yn ennill y Meistri golff
- Corach Rambler yn ennill y Grand National.

### MAI
- Luca Brecel yn ennill Pencampwriaeth Snwcer y Byd
- Brooks Koepka yn ennill Pencampwriaeth y PGA
- Sevilla yn ennill Cynghrair Ewropa
- Manchester City yn ennill yr Uwchgynghrair
- Saracens yn ennill Uwchgynghrair Rygbi.

### MEHEFIN
- Denver Nuggets yn ennill Ffeinal yr NBA
- Manchester City yn ennill Cwpan FA
- Barcelona yn ennill Cynghrair y Pencampwyr Merched
- West Ham yn ennill Cyngres Ewropa
- Manchester City yn ennill Cynghrair y Pencampwyr
- Sbaen yn ennill Cynghrair y Cenhedloedd
- Cymru yn ennill Cwpan y Byd Dartiau.

### GORFFENNAF
- Jonas Vingegaard yn ennill y Tour de France
- Carlos Alcaraz a Markéta Vondrousová yn ennill Wimbledon
- Guernsey yn ennill Gemau'r Ynysoedd.

### AWST
- Sbaen yn ennill Cwpan Pêl-Droed Merched y Byd
- Awstralia yn ennill Cwpan Pêl-Rwyd y Byd
- Manchester City yn ennill y Super Cup.

### MEDI
- Yr Almaen yn ennill Cwpan Pêl-Fasged y Byd
- Novak Djokovic a Coco Gauff yn ennill yr US Open
- Ewrop yn ennill y Cwpan Solheim.

### HYDREF
- Ewrop yn ennill Cwpan Ryder
- Max Verstappen yn cael ei goroni yn Bencampwr Byd Fformiwla Un
- De Affrica yn ennill Cwpan Rygbi'r Byd.

### TACHWEDD
- Awstralia yn ennill Cwpan Criced y Byd.

### RHAGFYR
- Manchester City yn ennill Cwpan Clwb y Byd FIFA.

Chwip o flwyddyn mewn chwaraeon ac mae blwyddyn gyffrous o'n blaen yn 2024!

**Mared Rhys Jones**

## Calendr Chwaraeon 2024

Bydd 2024 yn flwyddyn brysur iawn yn y Calendr Chwaraeon gyda thipyn o ddigwyddiadau, gan gynnwys y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd ym Mharis, gan gobeithio bydd Cymru yn rhan o'r Ewros yn Yr Almaen. Dyma gip olwg ar rhai o'r digwyddiadau, i chi gael cadw llygaid arnynt yn ystod y flwyddyn. Erbyn i chi dderbyn y rhifyn yma bydd *Grand Slam* cyntaf y flwyddyn yn y Byd Tennis yn dod at ei therfyn gyda Phencampwriaeth agored Awstralia.

**Chwefror**
- Pencampwriaeth Snwcer agored Cymru, Llandudno.
- Ffeinal Cwpan Asia, Qatar
- Ffeinal Cwpan Cenhedloedd Affrica, Traeth Ifori.
- Dechrau Pencampwriaeth Rygbi Y 6 Gwlad
- Pêl-droed Americanaidd, Superbowl 58, Las Vegas
- Cwpan Pêl-droed Traeth y Byd, Dubai.

**Mawrth**
- Pencampwriaeth Athletau Dan Do'r Byd, Glasgow
- Gŵyl Rasio Ceffylau Cheltenham

**Ebrill**
- Marathon Llundain,
- *Grand National*, Aintree
- Golff Y Meistri, Augusta.
- Pencampwriaeth Snwcer y Byd, Crucible

**Mai**
- Giro D'Italia
- Pencampwriaeth Tennis Agored Ffrainc, Roland Garros

**Mehefin**
- Ewro 2024, Yr Almaen (Gan obeithio bydd Cymru yno)
- Cwpan Cenhedloedd Oceania, Vanuatu.
- Copa America, UDA.
- Cwpan Criced Ugain Pelawd ICC Y Byd, UDA a'r Caribî.
- Seiclo Tour de France yn cychwyn
- Cwpan Dartiau'r Byd, Yr Almaen

**Gorffennaf**
- Grand Prix Prydain, Silverstone
- Tennis, Wimbledon
- Pencampwriaeth Golf Prydain, Royal Troon
- Ras y Wyddfa, 20fed o Orffennaf
- Gemau Olympaidd yn cychwyn ym Mharis, 26 o Orffennaf i 11 Awst.

**Awst**
- Vuelta ac Espana
- Pencampwriaeth Tennis UDA, Flushing Meadows
- Gemau Paralympaidd yn cychwyn ym Mharis, 28 Awst




**Medi**
- Cwpan Solheim Golff, Virgina, UDA

**Hydref**
- Marathon Eryri, 26 Hydref

**Tachwedd**
- Tenis Ffeinal Cwpan Davis a Chwpan Billie Jean King, Sbaen

**Rhagfyr**
- Pencampwriaeth Dartiau Byd y PDC, Alexander Palace, Llundain
- Grand National Cymru, Cas-gwent 27 o Ragfyr

Gobeithio bydd digon o Chwaraeon i'ch diddanu dros y 12 mis nesaf felly.

**Elgan Rhys Jones**








ISSN 2516-7235

9 772516 723001 >